

# CABINET

## CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 30ain Tachwedd, 2021
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Cyfarfod Rhithiol – Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlleu - <a href="https://gwynedd.public-i.tv/core/portal/home">https://gwynedd.public-i.tv/core/portal/home</a>
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

### AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Aelodau</b>	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

## RHAGLEN

	<b>Eitem</b>	<b>Cyflwynir gan</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Tud.</b>
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 12 TACHWEDD			3 - 11
6	TIM CYMUNEDAU GLAN A THACLUS	Cyng. Catrin Wager	Steffan Jones	12 - 19
7	ACHOS BUSNES HUNANIAITH	Cyng. Nia Jeffreys	Geraint Owen	20 - 28
8	CYNLLUN AWTISTIAETH	Cyng. Dilwyn Morgan a'r Cyng. Dafydd Meurig	Aled Gibbard	29 - 46
9	NEWID TREFNIADAU CYMERADWYO SYMIAU HYD AT £100,000 O'R GRONFA TRAWSFFURFIO	Cyng. Ioan Thomas	Dafydd Edwards a Ffion Madog Evans	47 - 50
10	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD	Cyng. Dilwyn Morgan	Marian Parry Hughes	51 - 54
11	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	Cyng. Dafydd Meurig	Aled Davies	55 - 63

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 9 TACHWEDD 2021

---

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Bethan Lawton (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi) a Dewi Roberts (Aelod Lleol Abersoch).

### Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 4: Garem Jackson (Pennaeth Adran Oedolion), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion) a Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo).

Eitem 6: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd) a Alun Fon Williams (Uwch Swyddog Datblygu Twristiaeth)

Eitem 7: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)

Eitem 8: Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)

Eitem 9 – 11: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.  
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cyng. Dewi Roberts ar gyfer eitem 4 gan ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Abersoch, ond nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cyng. Cemlyn Williams a Garem Jackson ar gyfer eitem 11 gan eu bod yn Gyfarwyddwyr Cwmni Cynnal, roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac y bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

## 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

## **YSGOL ABERSOCH**

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Bethan Lawton – Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

### **PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i beidio addasu y penderfyniad a wnaethpwyd ar 28 Medi 2021 a cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y mater wedi cael ei alw i mewn i'r Pwyllgor Craffu gan nad oeddent yn teimlo fod y Cabinet wedi rhoi sylw digonol i bump agwedd benodol pan yn ystyried y mater yn ffurfiol wedi y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Eglurwyd fod y Pwyllgor Craffu wedi trafod yr eitem yn ystod eu cyfarfod ar y 21ain o Hydref, ble cafwyd trafodaeth a cyfle i graffu ymhellach. Mynegwyd fod nifer o'r agweddau wedi eu hateb yn ystod y cyfarfod a penderfynodd y Pwyllgor i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'r ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn sef nad oedd yr adroddiad yn cymryd ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y pentref. Pwysleisiwyd fod yr aelodau Craffu yn bryderus nad oedd ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r effaith posib datblygiadau arfaethedig ar y ffigyrau tafluniad ar gyfer Ysgol Abersoch cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Gofynnwyd i'r Cabinet ail ystyried eu penderfyniad yn sgil eu pryderon.

Ychwanegodd yr Aelod Lleol fod y drafodaeth dros Ysgol Abersoch wedi bod yn broses hir iawn ac fod angen i'r aelodau Cabinet roi sylw penodol i'r materion Tai sydd ar y gwell yn y pentref. Eglurwyd fod sôn am ddatblygiadau tai yn y ward a tu hwnt ac o ganlyniad i hyn fod angen darpariaeth addysg i blant a theuluoedd fydd yn symud i'r ardal. Tynnwyd sylw fod Ysgol Llanbedrog dros ei gapasiti. Mynegwyd fod y datblygiadau yma a'r Gwesty newydd yn newyddion da i'r ardal ond pwysleisiwyd nad oes dim sôn am y datblygiadau hyn yn yr adroddiadau a mynegwyd fod ymdeimlad yn lleol fod yr adroddiadau o'i ganlyniad yn gamarweiniol â ddim yn cyd-fynd a Deddf Llesiant.

Efynnwyd ar yr aelodau i beidio cau'r Ysgol am y rhesymau a nodwyd heddiw ac yn y gorffennol ac i beidio cau yn ganol tymor yr ysgol, ac i flaenoriaethu addysg plant yr ardal.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r adroddiad gan nodi cefndir yr eitem. Eglurodd yn ôl ym mis Mehefin fod y Cyngor wedi cyhoeddi y rhybudd statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Nodwyd fod y Cabinet yn dilyn ystyried y gwrthwynebiadau wedi cadarnhau y penderfyniad i gau'r Ysgol. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad a gyflwynwyd wedi

ymdrin a sylwadau am effaith datblygiadau posib yn yr ardal ac fod y Cabinet wedi eu hystyried cyn dod i benderfyniad.

Nododd ei fod yn cynnig i'r Cabinet i beidio addasu'r penderfyniad gan fod cau'r ysgol yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu yr ysgol ac yn arwain at gyfleodd fwy cyson i blant y dalgylch gan gynnig addysg o ansawdd uchel, profiadau, sgiliau a hyder i fod yn ddinasyddion dwyieithog llwyddiannus.

Nododd y Swyddog Monitro y drefn gyfansoddiadol yn unol a'r drefn galw i mewn gan nodi fod y penderfyniad a wneir heddiw yn derfynol a ni fydd modd galw'r penderfyniad hwn i mewn i graffu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd na fyddai angen trafod y posibilïadau o agor y gwesty gan y buasai'r cwmni, gobeithio, yn penodi unigolion lleol ac felly ni fydd angen i bobl symud i mewn i'r ardal. Gofynnwyd os y bydd y datblygiadau tai os y bydd gan Ysgol Sarn Bach y capasiti i gymryd mwy o blant. Eglurwyd y buasai capasiti yn y ysgol.
- Mynegwyd fod trafodaethau cychwynnol yn cael ei cynnal i drafod ac ymateb i angen am dai yn yr ardal ond nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei gadarnhau ac o ganlyniad ddim eisiau codi unrhyw ddisgwyliadau yn yr ardal.
- Pwysleisiwyd fod llawer o'r dadansoddi wedi ei wneud yn barod, a nodwyd os tai yn cael ei codi mai tai i bobl leol yn ardal fydd rhain ac nid i bobl tu allan i'r ardal, ac felly ni fydd yn cynyddu niferoedd y plant. Nodwyd o ran safle Penrhos y flaenoraeth fydd ar gyfer darpariaeth gofal, gyda nifer bychan ar gael i deuluoedd. Mynegwyd na fydd y rhain yn gwneud llawer o newid i'r tafluniad yr ysgol.
- Eglurwyd hyd yn oed os oes datblygiad y buasai capasiti yn Ysgol Sarn Bach i'r nifer o ddisgyblion.

## **5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y 28 MEDI A 12 HYDREF 2021**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Medi a 12 Hydref 2021 fel rhai cywir.

## **6. YMCHWIL I'R SEFYLLFA CARTEFI MODUR YNG NGWYNEDD**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Griffith.

### **PENDERFYNWYD**

Derbyniwyd yr adroddiad a cymeradwywyd y canlynol:

- I. Awdurdodi'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adran Economi a Chymuned i gynnal prosiect peilot ar gyfer defnydd o hyd at 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er darparu cyfleusterau i

- gartrefi modur aros dros nos ac i gynnwys dynodi y lleoliadau, ond yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid cyfalaf a'r caniatâdau angenrheidiol.
- II. Bod adroddiad pellach ar ganlyniadau y peilot yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ymhen tair blynedd.
  - III. Ystyried a gweithredu ar fesurau gorfodaeth i fynd law yn llaw gyda'r uchod.
  - IV. Cyflwyno'r gwaith ymchwil i Llywodraeth Cymru a gofyn iddynt Adolygu'r Ddeddf Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn ymchwili i gartrefi modur yng Ngwynedd. Darllenwyd y penderfyniad.

Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd fod y gwaith ymchwil yma wedi ei greu ar y cyd rhwng yr adran Amgylchedd ac Economi a Chymuned. Nodwyd mai pwrpas yr adroddiad yw i egluro beth oedd y sefyllfa cartrefi modur yng Ngwynedd ac os oes angen rheolaeth well arnynt ac os oes unrhyw wersi i'w dysgu o leoliadau eraill ym Mhrydain ac Ewrop. Tynnwyd sylw fod y ddeddfwriaeth o ran Cynllunio a Trwyddedu yn mynd yn ôl i'r 1960au a holwyd bellach os yn addas i bwrpas.

Mynegwyd fod tri holiadur wedi ei ddefnyddio - un gyda perchnogion meysydd Carafanau a Gwersylla yng Ngwynedd, un a perchnogion cartrefi modur ac un gyda trigolion Gwynedd. Amlygwyd fod trosolwg o'r canfyddiadau gan amlygu fod y sector yn un sydd yn datblygu yn sylweddol ac fod anghenion defnyddwyr cartrefi modur yn wahanol i ddefnyddwyr carafanau a gwersylla traddodiadol. Nodwyd fod defnyddwyr yn ffafrio lleoliadau o fewn pellter cerdded i lefydd o ddiddordeb a canol trefi ac yn dueddol i deithio drwy'r flwyddyn.

Amlygwyd fod enghreifftiau yn yr Alban a Lloegr ble mae cynghorau wedi treialu meysydd parcio yn lefydd aros dros nos gyda cyfleusterau angenrheidiol ac eglurwyd ei fod yn dueddiad sydd i'w gweld yn Ewrop yn ogystal. Mynegwyd fod perchnogion wedi nodi yn yr holiadur y buasant yn eu defnyddio ac nodwyd cefnogaeth i'r treialu gan y cyhoedd yn ogystal..

Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu yr angen am reolaeth gwell o'r sector ond fod angen cefnogaeth i dreialu'r cyfleusterau dros nos ond eu bod yn mynd law yn llawer gyda mwy o orfodaeth. Eglurwyd mai gofyn am ganiatâd i dreialu cyfleuster o'r fath mewn hyd at 6 lleoliad o fewn ardal cynllunio Awdurdod Gwynedd. Mynegwyd y bydd angen buddsoddiad i greu'r cyfleusterau pwrpasol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod cartrefi modur yn broblem fawr ar draws y sir a diolchwyd am y gwaith sylweddol sydd wedi mynd i mewn i greu'r adroddiad. Dangoswyd cefnogaeth i'r cynllun gan nodi fod angen symud yn sydyn.
- Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu cydweithio gwych rhwng y ddwy adran, ac ychwanegwyd fod angen bod yn ganolog i arwain twf yn yr economi er mwyn cynnal swyddi.

- Croesawyd yr adroddiad yn benodol o ran rheolaeth ac i gyfeirio at leoliadau penodol i geisio delio ar sefyllfa. Holwyd os oes modd gwthio yn rhaglen yn ei blaen ac o bosib i gael y safleoedd yn gynt yn hytrach nac yn hwyrach.
- Cefnogwyd yr adroddiad gan amlygu fod anghenion y grŵp yn wahanol i ddefnyddwyr y meysydd gwerysyla traddodiadau, ac eu bod yn cefnogi busnesau lleol. Amlygwyd pryder am 6 lleoliad yn unig gan y gallent greu prysurdeb mewn 6 lleoliad a drwy hynny ddim yn adlewyrchu beth gall y cynllun ei wneud yn ehangach. Eglurwyd dramor fod y lleoliadau yma y mherchnogaeth y cymunedau lleol ac efallai fod angen trafodaeth gyda'r cymunedau fel bod modd i gyfran o'r arian fynd er bydd y cymunedau yma.
- Nodwyd mewn byd delfrydol y buasai rhwydwaith o leoliadau ar draws y sir ond fod 6 yn nifer ymarferol i'r treialu ac ar diroedd sydd yn rheolaeth y Cyngor yn barod. Mynegwyd fod yr adroddiad yn sail tystiolaeth a fuasai o bosib yn rhoi cyfle i sectorau eraill agor y math yma o leoliad.
- Pwysleisiwyd fod yr adroddiad yn nodi mai rheoli'r sefyllfa mae'r Cyngor yn awyddus i'w wneud ac nid datblygu ymhellach. Amlygwyd yr angen am ddeialog agored gyda'r Parc i sicrhau eu bod yn rheoli yn ogystal ac nid datblygu'r sector. Nodwyd nad oedd modd cynnwys y Parc Cenedlaethol yn rhan o'r peilot o ganlyniad i'w rheolau cynllunio pendant..
- Nodwyd y bydd ar adran yn edrych ar ffyrdd o wthio y cynllun yn ei blaen.

## **7. FFRAMWAITH PWYLLGORAU**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Nia Jeffreys

### **PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet i'r dyfodol gyda'r dyddiad cychwyn i'w bennu gan yr Arweinydd mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth a'r Swyddog Monitro, ac o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y fframwaith yn gosod arweiniad ar y ffordd ymlaen i gyfarfodydd i'r dyfodol. Amlygwyd fod mynychu cyfarfodydd o bell yn cynnig llawer o fanteision megis amrywiaeth mewn democratiaeth, costau ac amser teithio i Gynghorwyr a Swyddogion. Pwysleisiwyd fod cyfnod y pandemig wedi amlygu sut mae mynediad o bell wedi gweithio yn dda. Mynegwyd fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn nodi'r angen i gyhoeddi yn ffurfiol y trefniadau ar gyfer Pwyllgorau i'r dyfodol.

Eglurwyd fod gan y Cabinet hawl i fabwysiadu ei threfniadau ei hunain ac y fod y Cyngor Llawn yn penderfynu ar y pwyllgorau eraill ar draws y Cyngor. Nodwyd fod y fframwaith wedi ei lunio ar sail diddordeb y cyhoedd i'r eitemau sydd i'w gweld mewn amrywiol bwyllgorau ac fod cynnal y Cabinet mewn trefn hybrid yn gyson gyda'r drefn hwn.

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADRAN TAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Craig ab Iago.

### PENDERFYNWYD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod newyddion da a drwg. Amlygwyd fod 3 cynllun penodol yn crisialu'r gwaith positif mae'r adran yn ei wneud. Eglurwyd fod y Cynllun Gweithredu Tai bellach yn weithredol ac yn gweithio i sicrhau tai i bobl i leol yn eu cymunedau. Nodwyd fod cynlluniau arloesol ar draws y sir ac fod sawl grawn wedi ei dderbyn i ymateb i gynlluniau fel digartrefedd.

Mynegwyd fod cynlluniau ar y gwell i adeiladu tai o fewn y sir ac fod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda chyrff ar draws Gwynedd i adeiladau tai ar diroedd y Cyngor. Tynnwyd sylw ar gynllun Siop Un Stop fydd ar gael i gynorthwyo unigolion i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth ac yn ymwybodol o unrhyw gyfleodd sydd ar gael. Nodwyd fod y cynllun gosod tai cymdeithasol i bobl leol a gychwynwyd flwyddyn yn ôl yn cymryd camau mawr ymlaen ac yn parhau i ddatblygu er fod nifer o broblemau wedi codi ar hyd y daith. Er hyn amlygwyd fod yr adran wedi llwyddo i gartrefu nifer uchel o bobl yn eu cymunedau.

Eglurwyd er fod y cynlluniau yn uchelgeisiol fod y pandemig wedi arafu nifer o gynlluniau o fewn y Cynllun Gweithredu Tai. Pwysleisiwyd fod camau yn ei le i daclo digartrefedd a oedd yn argyfwng cyn y pandemig ond fod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y deunaw mis diwethaf. Mynegwyd fod y pandeimg wedi cael effaith ar adnoddau sydd ar gael ynghyd ar capasiti i ymateb. Ond, gyda'r drefn herio perfformiad newydd nodwyd fod modd ymateb yn gyflym i heriau ac i daclo problemau yn syth.

Ar y cyfan mynegwyd fod ar adran yn llwyddo ac fod derbyn pedair Gwobr Genedlaethol yn profi y llwyddiant yma. Eglurwyd y bydd yr Aelod Cabinet yn mynd i bob ardal adfywio yn ystod y misoedd nesaf i esbonio i Gynghorwyr beth mae'r adran yn gobeithio ei wneud ymhob ardal.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at ddigartrefedd cudd sydd i'w gweld ar gynnydd ar draws y sir. Croesawyd cynlluniau yn Cynllun Gweithredu Tai gan amlygu ei fod yn weithredol ers cwta 7 mis. Holwyd os oes modd cael gwybodaeth fesul ward. Nodwyd fod trafodaeth am ddigartrefedd cudd yn hynod bwysig gan fod llwyddiant cynllun i gael unigolion oddi ar y stryd wedi lleihau y tai sydd ar gael i daclo cynyddu mewn digartrefedd cudd.
- Eglurwyd fod digartrefedd ar ei lefel uchaf erioed ar mae hyn i'w gweld ar draws Cymru. Eglurwyd fod y Cyngor yn edrych i brynu 6 safle ac yn parhau i geisio prynu tai fel bod modd cynnig lleoliadau gosod yn lleol i unigolion.



- Eglurwyd fod arian ar gyfer digartrefedd yn dod o Gronfa Caledi'r Cyngor ond nodwyd fod y Gweinidog wedi pwysleisio na fydd arian ar gael y flwyddyn ariannol nesaf. Eglurwyd os yn parhau y bydd angen arian i'w ariannu ac angen sicrhad fod yr arian yn y setliad a dderbynnir gan y Llywodraeth.
- Nodwyd fod yr adroddiad yn glir, cryno ac i'r pwynt ac yn un cadarnhaol a positif. Mynegwyd od niferoedd digartrefedd yn frawychus o uchel er nad oedd prinder tai, ond fod y nifer uchel o dai yn cael ei defnyddio yn dymhorol yn gyfredol. Gofynnwyd i'r Llywodraeth os yn tynnu yr arian yn ôl fod angen cymorth gyda ail gartrefi.

## 9. STRATEGAETH DDIGIDOL ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams.

### PENDERFYNIAD

- I. Cymeradwywyd y Strategaeth Ddigidol Addysg yn ei chyfanrwydd.
- II. Cytunwyd i gyd ariannu hyd at hanner costau adnewyddu'r dyfeisiadau drwy ymrwymo £2filiwn o falansau'r Cyngor, gyda disgwyliad i ysgolion dalu'r hanner arall .
- III. Cytunwyd i ysgolion Gwynedd dderbyn cefnogaeth dechnegol gan wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod o Ebrill 2022 ymlaen.
- IV. Cytunwyd i ariannu £145mil er mwyn cynnig cefnogaeth dechnegol hyd at Ebrill 2022, er mwyn prysuro amserlen cyflwyno dyfeisiadau i'r ysgolion.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu pleser o gyflwyno'r strategaeth arloesol yma. Pwysleisiwyd fod hwn wedi bod yn gynllun trawsadrannol rhwng yr adran Addysg a Technoleg Gwybodaeth a nodwyd gwerthfawrogiad i'r cyd-weithio agos sydd wedi bod yn creu'r Strategaeth. Mynegwyd mai bwriad y Strategaeth yw i ddefnyddio y ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi disgyblion a staff ysgolion i sicrhau cyfleon cyson ar draws y sir. Eglurwyd fod y bwriad hwn yn amlygu'r uchelgais sydd i ddefnyddio technoleg gwybodaeth i wella addysg gan ddyrchafu'r defnydd i bob cam o'r cwricwlwm.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg fod y cyfnod y pandemig wedi amlygu'r angen sydd i sicrhau fod disgyblion yn gallu defnyddio technoleg yn hyderus. Pwysleisiwyd fod y gwaith ar y strategaeth wedi cychwyn cyn y cyfnod clo ond fod y cyfnod y pandemig wedi gwthio y cynllun yn ei blaen.

Tywysydd y Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion drwy'r adroddiad gan nodi fod sgiliau ddigidol bellach ar yr un lefel a llythrennedd a rhifedd ac felly fod angen sicrhau fod gan ddisgyblion y sgiliau digidol sydd ei angen. Eglurwyd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i wella'r ddarpariaeth ac wedi rhoi cyfrifoldeb i'r awdurdodau lleol i arwain ac y gwaith i sicrhau cyd-weithio rhwng yr ysgolion.

Eglurwyd yn bresennol fod nifer o ddyfeisiadau wedi dyddio ac ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o systemau gwahanol. Nodwyd y bydd y strategaeth yn sicrhau cysondeb ar draws ysgolion. Pwysleisiwyd fod y cyfnod clo wedi amlygu diffyg dyfeisiadau addas ac eu bod yn syfrdanol y nifer o aelwydydd nad oedd ganddynt ddyfeisiadau addas. Nodwyd fod bron i 2000 o ddyfeisiadau wedi er rhannu yn ystod y cyfnod ond fod yr angen wedi bod i rannu mwy oherwydd fod nifer o deuluoedd yn rhannu dyfais yn hytrach nac un i bob disgybl. Mynegwyd fod y strategaeth yn sicrhau dyfais i bob disgybl ac athro, ac y byddant wedi ei dewis yn unol a anghenion oedran y disgybl ac wedi ei gosod yn Gymraeg ar draws y sir.

Tynnwyd sylw at gostau adnewyddu gan fod rhai miloedd o ddyfeisiadau ar y ffordd i'r ysgolion gyda hyd bywyd o oddeutu 5 mlynedd. Eglurwyd y bydd angen £3.9 miliwn i'w hadnewyddu. Pwysleisiwyd y bydd angen i'r dyfeisiadau gael ei cynnal a cadw yn effeithiol er mwyn sicrhau na fydd un disgybl yn colli addysg. Amlygwyd y drefn bresennol ar hyn o bryd i gefnogi ysgolion gan nodi yn y tymor byr y bydd y gefnogaeth yn cael ei dynnu mewn i wasanaeth technoleg gwybodaeth y Cyngor tra fydd yr adran yn sicrhau trefn cefnogi tymor hir.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd fod y cynllun yn un uchelgeisiol ac yn rhoi cyfleodd a profiadau gorau a cyson ar draws y sir. Nodwyd yn yr ysgolion y bydd yn gweithio yn arbennig o dda ond holwyd sut y bydd cymorth ar gael i unigolion heb gyswllt y we. Eglurwyd fod y panedmig wedi amlygu problemau ond fod ysgolion wedi eu cynorthwyo drwy focsys we o'r ysgolion ond fod rhai wedi parhau gyda problemau oherwydd fod rhai tai heb signal ffon Er mwyn ymateb i hyn bydd yr adran yn edrych ar bob opsiwn posib ac y bydd modd i ysgolion geisio am grantiau.
- Holwyd yn dilyn y 5 mlynedd bydd y dyfeisiadau yn cael ei uwchraddio a felly gofynnwyd sut y bydd y dyfeisiadau yn cael ei ailgylchu neu a fydd modd eu ailddefnyddio. Mynegwyd o ran y dyfeisiadau, yn benodol ar ddiwedd ysgol uwchradd, y bydd cynnig yn cael ei roi i'r disgyblion i gadw ei cyfarpar ar ddiwedd y 5 mlynedd, ond eglurwyd y bydd y dyfeisiadau eraill yn cael eu hailgylchu o fewn Prydain.
- Holwyd o ran cydraddoldeb fod angen rhoi ystyriaeth i'r ddisgyblion sydd yn cael ei lleoli mewn lleoliadau tu hwnt i'r sir. Mynegwyd fod trafodaethau yn cael ei gynnal i gael yr unigolion yma ynghyd a plant gyda'r anableddau dwys yn rhan o'r cynllun.
- Tynnwyd sylw yn ogystal at ddisgyblion sydd yn cael eu haddysgu adref gan fod cynnydd mewn niferoedd o ganlyniad i'r pandemig. Eglurwyd fod cefnogaeth ar gael i'r teuluoedd drwy'r tîm lles.
- Rhoddwyd y cyd-destun ariannol gan bwysleisio fod y Cyngor wedi derbyn arian grant ond y bydd angen ariannu cost adnewyddu. Mynegwyd yn amodol ar ysgolion yn ariannu hanner y gost y bydd angen ymrwymo £2 filiwn o falensau y Cyngor i adnewyddu y dyfeisiadau ymhen 5 mlynedd.

## 10. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD

PENDERFNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn

cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny) yno gystal â Paragraff 16 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972- Gwybodaeth y gallai honiad ynghylch braint broffesiynol gyfreithiol gael ei gynnal yn ei chylch mewn achos cyfreithiol.

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cwmni a'r Cynghorau. Mae hefyd yn cynnwys cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd ynglŷn a sefydlu y ffordd ymlaen. Mae'r gallu i dderbyn a thrafod cyngor or fath yn cael ei warchod gan y ffrainc gyfreithiol . Byddai cyhoeddi hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## **11. STRATEGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH YSGOLION A CHWMNI CYNNAL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

### **PENDERFYNIAD**

- I. Cymeradwywyd y ffordd arfaethedig ymlaen mewn perthynas â dyfodol Cwmni Cynnal.
- II. Dirprwywyd yr hawl i Bennaeth yr Adran Gyllid mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol, i negodi cytundebau o'r fath fel sydd eu hangen yn rhesymol i hwyluso'r weithdrefn.
- III. Gofynnwyd am adroddiad dilynol i'r Cabinet i gymeradwyo materion dosbarthu a throsglwyddo y cytunwyd arnynt.

### **TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3:40pm

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 6

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



**Dyddiad y Cyfarfod:** 30 Tachwedd, 2021  
**Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Catrin Wager  
**Swyddog Cyswllt:** Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol  
**Rhif Ffôn Cyswllt:** 32402  
**Teitl yr Eitem:** Tîm Cymunedau Glan a Thaclus

### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefydlu Tîm Cymunedau Glan a Thaclus i ymgymryd â man waith cynnal ac i ategu gweithgareddau cynnal rheolaidd. Y bwriad yw ymateb i bryderon ar lefel cymunedol a gwneud gwahaniaeth gweladwy i ddelwedd yr ardal. Bydd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at lendid, taclusrwydd a diogelwch yr amgylchedd adeiledig lleol.
- 1.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo dyraniad £1,523,730 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu'r tîm a'u costau cysylltiedig ar sail un-tro am gyfnod o dair blynedd i gychwyn c.g.a.ph.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Mabwysiadwyd 'Cymunedau Glan a Thaclus' fel blaenoriaeth gwella yng Nghynllun y Cyngor yn 2021/22. Yn ogystal â hyn, pan fu ymgysylltu a thrigolion fel rhan o'r rhaglen 'Ardal Ni', amlygwyd pryderon am flerwch a diffyg buddsoddiad mewn harddu ein cymunedau fel themâu sydd o bwys i'n trigolion. Fel rhan o'r 'Rhaglen Ymgysylltu Ardal Ni' casglwyd sylwadau am yr hyn sy'n bwysig i drigolion pob ardal adfywio yn ystod Medi/Hydref 2021. Fe welir yn Atodiad 1 bod canran sylweddol o'r sylwadau yn ymwneud â blerwch a diffyg buddsoddiad i sicrhau cymunedau glan a thaclus.
- 2.2 Oherwydd pwysau ar yr Adnoddau sydd gennym ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd mae mân faterion sy'n effeithio ar edrychiad y Sir yn dueddol o gael eu methu gan fod unrhyw ymyriadau i ddelio gyda mân waith yn gallu effeithio ar berfformiad y rhaglen gynnal a chadw.
- 2.3 Os am sicrhau fod y man waith yma'n derbyn sylw priodol a'n bod yn gwneud gwir wahaniaeth er mwyn ceisio sicrhau cymunedau glan a thaclus, mae angen darpariaeth newydd.

- 2.4 Argymhellir sefydlu timau Cymunedau Glan a Thaclus ar draws y sir fel ffordd arloesol o ychwanegu gwerth ac ymateb i'r pryderon penodol sydd wedi eu cyfleu gan drigolion Gwynedd a'u cymunedau yn ystod cam cyntaf y gwaith ymgysylltu Ardal Ni.

### **3. CYFLWYNIAD**

- 3.1 Bu i'r Cyngor sefydlu Gangiau Cymunedol yn ystod 2007 er mwyn ymateb i gwynion a mân broblemau. Roedd y fenter yma yn llwyddiannus, gyda lleihad mewn niferoedd o gwynion ac adborth positif gan drigolion a chynghorau cymuned. Yn anffodus bu'n rhaid dirwyn y gwasanaeth hwn i ben wrth geisio cyflawni arbedion ariannol ac mae'n amlwg fod yr effaith wedi bod yn fwy na ragdybiwyd ar y pryd.
- 3.2 Llwyddom hefyd i weithredu menter 'Trefi Taclus' yng Ngwynedd rhwng 2008-2018. Nod y fenter hon oedd grymuso pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb am ansawdd eu hamgylchedd lleol a bu datblygiadau a llwyddiannau cadarnhaol. Roedd rhai o'r datblygiadau, yn ystod y tair blynedd gyntaf, yn cynnwys grantiau ar gyfer 50 o brosiectau i ddarparu offer a chefnogaeth logistaidd i grwpiau gwirfoddol wrth iddynt ymgymryd â phrosiectau clirio sbwriel a darparu cymorth grant gwelliannau cymunedol. Fel rhan o'r fenter yma roedd y Gangiau Cymunedol yn ymgymryd â'r rhaglen gwaith "Blitz" (ymgyrchoedd tacluso) trwy'r Sir. Roedd Trefi Taclus hefyd yn hwyluso ac ariannu'r sioe amgylcheddol ysgolion cynradd er mwyn codi ymwybyddiaeth am ailgylchu, lleihau sbwriel a baw cŵn ymysg cynulleidfya ifanc.
- 3.3 Nid yw'r dull yma o weithio yn hollol newydd, mae nifer o gynghorau eraill wedi datblygu 'Sgwadiâu Taro Amgylcheddol' o fewn terfynau cymunedol. Yn ystod 2019 cyflwynodd Cyngor Wigan 'Sparkle Gangs'. Fel rhan o'r fenter hwn roedd trefi yn derbyn pedwar diwrnod o lanhau dwfn pob chwarter. Roedd hyn yn cynnwys ymgymryd â gweithgareddau fel ysgubo ffyrdd a llwybrau, golchi arwyddion, tacluso llwyni a chwistrellu chwyn. Fe welir enghreifftiau tebyg gan Gyngor Caerdydd, Oxfordshire, Corby, Enfield a Salisbury.
- 3.4 Mae'r llwyddiannau yma, ynghyd â'r negeseuon clir o gam cyntaf y gwaith ymgysylltu Ardal Ni yn ategu'r angen dros ail-afael mewn gwaith fydd yn cyfrannu tuag at ddelwedd a harddwch yr ardal. Credwn fod y cyfle hwn yn hanfodol er mwyn gwireddu balchder bro yng Ngwynedd. Trwy fabwysiadu'r dull yma o weithio, gallwn dargedu'r ardaloedd risg uchel a thrwy hyn wneud gwahaniaeth sylweddol a gweladwy mewn amser cymharol fyr.
- 3.5 Yn amlwg mae llwyddiant y dull gweithio uchod yn ddibynnol ar bartneriaethau a chydweithrediad agos gyda chynghorau cymuned a budd-ddeiliad lleol eraill. Fel rhan o'r cynllun Cymunedau Glan â Thaclus byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda chymunedau ledled y sir er mwyn deall yn union beth fydd angen eu targedu o fewn y gwahanol gymunedau.

#### **4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

- 4.1 Cyfraniad sylweddol at nôd blaenoriaethau gwella'r adran sef Cymunedau Glan a Thaclus a Chryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- 4.2 I wireddu'r hyn addawyd o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 sef 'gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'u bod fel pobl yn 'mwynhau bywyd hapus, iach a diogel' trwy 'fanteisio ar harddwch naturiol y Sir'.
- 4.3 I hwyluso gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd adeiledig oddi fewn i ac yng nghyffiniau trefi a phentrefi yng Ngwynedd, trwy ganolbwyntio ar lefydd agored cyhoeddus, e.e. ffyrdd, strydoedd, parciau, promenadau, a.y.b.
- 4.4 Hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel cymunedol wrth fagu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.
- 4.5 Cyfle i integreiddio gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol drwy sefydlu'r tîm gwaith o fewn Gwasanaethau Stryd. Er bydd y tîm gwaith yn eistedd o fewn Gwasanaethau Stryd, byddwn yn cysidro'r tîm fel rhan annatod o bob gwasanaeth o fewn yr adran.
- 4.6 Galluogi'r prif weithlu i ganolbwyntio ar waith cylchol a gwaith wedi ei raglennu.
- 4.7 Tîm cynhwysol oddi fewn i derfynau cymunedol yn lleihau'r angen i ddefnyddio amrywiaeth o gludiant, sydd yn fwy cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys y defnydd o gerbydau trydan ym mhob cyfle posib.

#### **5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

##### **Ffurf y Timau a Threfniadau Rheolaethol/Arolygu**

- 5.1 Yn syml, mae tîm gwaith yn cynnwys dau weithiwr mewn fan fechan. Y bwriad fydd i gyfarparu pob gang gyda set o offer a deunyddiau priodol ar gyfer amrywiaeth o fân waith (e.e. strimiwr, bwcedi tar, a.y.b.. Er mwyn sicrhau bod cerbydau'r tîm yn amlwg a gweledol o gwmpas y cymunedau, bwriedir defnyddio lliw a logo gwahanol i'r cerbydau cynnal arferol, e.e. Cymunedau Glan a Thaclus, rhif ffôn, a.y.b.
- 5.2 Yn seiliedig ar ein profiad blaenorol rydym yn awgrymu sefydlu 2 tîm gwaith o fewn Meirionydd ac Arfon a 1 tîm gwaith o fewn Dwyfor. Bydd angen Arweinydd Tîm i gydlyn a blaenoriaethu'r gwaith ar y cyd gyda'n gwahanol gymunedau.
- 5.3 Bwriedir cynnal sesiynau ymgynghori o fewn yr adran er mwyn sicrhau bod rheolwyr a'r gweithlu yn cael cyfle i fynegi barn ynglŷn â'r math o waith sydd angen ei dargedu a'r ffordd orau o'i gyflawni.
- 5.4 Byddwn hefyd yn manteisio ar dechnoleg newydd/symudol er mwyn ymateb i fân broblemau yn gyflym ac yn effeithiol. Byddwn yn darparu bob tîm a thabled/ffon symudol er mwyn rhaglennu eu gwaith. Mi fydd hyn yn galluogi'r timau ddiweddarau ceisiadau/ymholiadau gan y cyhoedd a sefydlu ffrydiau cyfathrebu ac ymgysylltu cryf.

## 5.5 Maes Gwaith y Tîm Cymunedol

Dyma restr drafft cychwynnol:

- Pwyslais ar fannau trefol a mannau gwledig prysur
- Torri a symud chwyn trefol a gordyfiant penodol (yn ychwanegol at reoli chwyn wedi'i drefnu)
- Glanhau a mân waith cynnal arwyddion ffyrdd ac enwau strydoedd
- Glanhau a phaentio meinciau, bolardiau a dodrefn stryd erial
- Golchi, atgyweirio a gosod biniau stryd a biniau baw cŵn
- Casglu nodwyddau ychwanegol i, ond dim yn lle, gwaith Glanhau Strydoedd
- Tynnu graffiti, sticeri a phosteri o eiddo'r Cyngor
- Mân waith atgyweirio a phaentio arall
- Ymateb i ddiffygion, difrod a fandaliaeth berthnasol ar eiddo'r cyngor
- Glanhau Dwfn - golchi strydoedd a thynnu gwm
- Clirio achosion priodol o dipio neu waredu anghyfreithlon (ymatebol ac ychwanegol i, ond dim yn lle, gwaith Glanhau Stryd)
- Rôl argyfwng - gweithio mewn cyfuniad â gangiau eraill yn ystod ymateb brys, e.e. llifogydd, eira
- Cynnal y gaeaf - bydd y tîm ar gael i gefnogi'r gwaith yma
- Mân waith draenio - glanhau a thocio gordyfiant o ddraeniau a sianeli ar ochr ffyrdd - gwaith bychan cynnal Priffyrdd
- Seidio - ble'n berthnasol (e.e. trefol)
- Tacluso ymylon ffyrdd
- Gwagio biniau pan yn gorlenwi ar adegau prysur.

## 5.6 Mesur Perfformiad

- Wrth gyflwyno unrhyw fenter newydd mae'n hanfodol ein bod yn gosod mesurau er mwyn herio ein perfformiad yn gyson.
- credwn mai'r ffordd orau o ddeall os yw'r gwasanaeth hwn yn effeithiol ai peidio ydi drwy wrando ar farn trigolion ein cymunedau ac felly byddwn yn sefydlu mesurydd bodlonrwydd cwsmer misol er mwyn gallu tracio'n perfformiad ac ymateb yn sydyn lle bo angen.
- Mae bwriad o arbrofi â mesurau eraill hefyd er mwyn dod o hyd i'r mesurau fwyaf addas a dibynadwy.

## 5.7 Oblygiadau ariannol

- Cyflwynwyd bid ar gyfer ariannu'r gangiau am gyfnod o 3 blynedd yn gychwynnol - £1,523,730
- Mae'n bwysig nodi ein bod yn awyddus i ariannu'r cynllun hwn yn fuan, gan ei fod yn flaenoriaeth uchel iawn.
- O ganlyniad i hyn, ni allwn aros am y gyllideb 2022/23 ac felly bydd angen i'r Cabinet ragfarnu'r broses bidiau (h.y. caniatáu'r cynllun hwn heb bwysio a mesur yn erbyn bidiau eraill).

**Gweithwyr-**

Swyddog Prosiect/Prif  
Gyswllt y Tîm  
Arweinydd Tîm  
5x Tîm Cymunedol  
Goramser (10%)  
Hyfforddiant

**£397,830**

**Trafnidiaeth-**

5 cerbyd 3.5T  
1 fan  
(yr ydym yn anelu i'r  
cerbydau yma fod yn  
gwbl wyrdd)

**£85,080**

**Cyflenwadau a  
Gwasanaethau**

Man Offer a Chelfi  
Sachau  
Dillad ac Esgidiau  
Diogelwch  
Teleffonau Symudol  
Gwaredu a.y.b.

**£25,000**

<b>IS-Gyfanswm</b>			<b>£507,910</b>
<b>Cyfanswm x 3</b>			<b>£1,523,730</b>

**5.8 Rheolaeth ac Amserlen**

Bydd un pwynt cyswllt yn rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd ac yn cyfathrebu gyda Aelodau a Cynghorau Cymuned a Thref i sicrhau rhaglen waith ar gyfer gweithredu. Mae'r rôl yma yn hanfodol ac a fydd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu.

Amserlen – Pe bydd y Cabinet yn cymeradwyo sefydlu y tîm Cymunedau Glan a Thalus, ein bwriad fyddai ei weld yn weithredol yn fuan yn y flwyddyn newydd.



## 5.9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r gwaith o baratoi y cynnig wedi cymryd lle gan gyfarch gofynion y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gofyniad y mae'n ei roi ar gyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A WNAED CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 6.1 Ymgynghori 'Ardal Ni 2032' (gwelir manylion ym mhwynt 2.1).

#### **Atodiadau**

Atodiad 1 - Ardal Ni (Sylwadau Cymunedau Glan a Thaclus).

## 7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu os afbwynt priodoldeb.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Nodaf fod y gofyn ariannol yn eglur yn ail gymal y penderfyniad a geisir, sef cais i'r Cabinet gymeradwyo dyraniad £1,523,730 o'r Gronfa Trawsffurfio rŵan, er mwyn ariannu'r tîm a'u costau cysylltiedig ar sail un-tro am gyfnod o dair blynedd.

Mater i'r Cabinet yw blaenoriaethu'r defnydd o'r Gronfa Trawsffurfio. Tra mae adnoddau digonol yn y gronfa rŵan, bydd ceisiadau eraill yn dilyn. Felly, os am ganiatáu'r cais sylweddol yma, dylai'r Cabinet fod yn argyhoeddedig fod yr angen yma'n flaenoriaeth uchel.

<b>Ardal</b>	<b>Cymunedau Glan a Thaclus</b>
<b>Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?</b>	
Ardal Llŷn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbwriel ar y lan môr – dim digon o gasglu sbwriel ar lan mor yn digwydd, o bosib byddai hyn yn un peth gall Ffrindiau AHNE Llŷn ei wneud fel gwaith ymarferol?</li> <li>• Yn achlysurol mae'r gwasanaeth ailgylchu yn gadael llanast ar eu holau.</li> </ul>
Bro Ardudwy	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ochrau ffyrdd yn edrych yn flêr – dim digon o gynnal a chadw ar y gwair ac yn y blaen ar ochrau ffyrdd yn yr ardal.</li> <li>• Dim digon o wario ar isadeiledd i uwchraddio/tacluso.</li> </ul>
Bro Lleu / Nantlle	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Baw ci yn broblem ac yn risg i iechyd ein plant.</li> </ul>
Bro Ogwen	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n flêr mewn mannau.</li> </ul>
Bro Peris	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Twristiaid yn defnyddio ardal 'Lagoons' fel ma gwrsylla rhad ac am ddim ar gyfer 'Campervans' ac yn gadael sbwriel a budreddi ar eu holau.</li> <li>• Baw ci yn broblem ac angen addysgu pobol.</li> <li>• Sbwriel yn cael ei adael gan dwristiaid, llawer mwy o sbwriel o amgylch y lle yn ystod tymor yr haf na'r gaeaf.</li> <li>• Dim digon o finiau sbwriel/biniau cŵn.</li> <li>• Problem baw cwn a sbwriel yn arbennig dros gyfnod yr haf pan fo mwy o dwristiaeth o gwmpas.</li> <li>• Sbwriel a baw ci ymhob man.</li> </ul>
Dalgylch Bangor	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Biniau ysbwriel ymhob man ac yn gwneud pafinau yn anodd cerdded arnyn nhw. Gweld bai mawr ar Gyngor Gwynedd am hyn.</li> </ul>
Dalgylch Caernarfon	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Stryd Llyn, tu ôl i'r post yn edrych yn flêr.</li> <li>• Ddim yn hoffi'r adeilad parcio sydd ger y safle bws – mae o'n 'eye sore' go iawn wrth ddod i mewn i'r dref.</li> <li>• Angen torri a thwtio y coed sydd uwch ben y safle rheilffordd fel bod ceir neu cerdded o Tesco yn gallu gweld y castell a'r cei wrth ddod i mewn i'r Dref.</li> <li>• Baw ci yn broblem mawr.</li> <li>• Edrych yn fudur mewn rhannau e.e. tu allan i wal Anglesey.</li> <li>• Sbwriel ofnadwy dros yr Aber – yn aml o McDonalds/Costa Coffee – angen dod o hyd i ffordd o edrych ar bethau fel hyn.</li> <li>• Diffyg biniau ailgylchu.</li> <li>• Dim celf stryd i weld yn unman – teimlo reit gryf am hyn – gallu edrych yn reit ddwl yn y Gaeaf.</li> <li>• Dim digon o flodau a choed.</li> <li>• Sbwriel.</li> <li>• Problem blerwch a sbwriel ar y strydoedd.</li> <li>• Ardaloedd yn y dref yn edrych yn flêr e.e. Stryd y Llyn.</li> </ul>
Dalgylch Pwllheli	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Blerwch yn y strydoedd – nid sbwriel, ond diffyg cynnal a chadw.</li> <li>• Tai gwag tua 10 i gyd, sy'n edrych yn flêr ac yn effeithio ar edrychiad y pentref; perchnogion yn gwrthod eu gwella sy'n wastraff oherwydd fe allent gael eu defnyddio fel cartrefi.</li> <li>• Dim digon o finiau baw ci, o ganlyniad i Covid mae llawer mwy o bobl gyda chŵn.</li> </ul>
<b>Pa newidiadau fywch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal?</b>	
Bala Penllyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llecynnau gwyrdd/parciau/llwybrau yn cael eu cynnal i safon dda</li> </ul>

<p>Bro Dysynni</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfan ailgylchu yn Nhywyn. Mae gan Dolgellau a Bala ganolfannau ailgylchu; mae Tywyn yn dref fwy, ond heb ganolfan ailgylchu. Mae hi'n bell iawn i drigolion Tywyn fynd i ganolfan ailgylchu. Mae 'na hefyd 6 pentref sy'n dibynnu ar Tywyn fel canolbwynt – Aberdyfi, Brynchrug, Abergynolwyn, Llanegryn, Rhoslefain a Llwyngwriil. Rwyf wedi cyfarfod efo Steffan Jones, ac wedi adnabod safle delfrydol sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd, ac sydd ddim yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.</li> <li>• Sbwriel. Mae'r cynghorydd yn mynd allan i hel sbwriel ei hun yn ei chymuned. Byddai'n hoffi gweld cystadleuaeth 'Best kept village' yn dod nol i Wynedd. Byddai'n rhoi ymdeimlad o falchder mewn pentrefi/cymunedau.</li> <li>• Canolfan ailgylchu 'state of the art'</li> </ul>
<p>Bro Peris</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod pentrefi yn edrych yn fwy croesawgar, mwy o ymdrech yn cael ei wneud i gadw ein pentrefi yn dwt a glan gyda blodau, coed ayb yn cael eu tyfu</li> <li>• Creu coridorau o goed drwy blannu a chysylltu coedlannau sydd eisioes yn bod yn y pentrefi.</li> <li>• Mwy o blannu coed, ar dir gwyrdd gwag ac annog perchnogwyr tir preifat i blannu coed hefyd.</li> <li>• Gwaith i dwtio a gwella safon, llwybrau, coedwigoedd, gwrychoedd, waliau.</li> <li>• Rheoli baw cŵn mewn ardaloedd</li> <li>• Darparu mwy o finiau sbwriel ym mhob ardal / ystâd dai / prif ardaloedd traffig troed</li> <li>• Mwy o brosiectau i harddu'r gymuned a dod a'r gymuned at ei gilydd</li> <li>• Gweithio ar edrychiad wrth ddod mewn ac yn penra Deiniolen ei hun - ee bloda / hanging baskets mwy o lunia gan y plant ayyb.</li> </ul>
<p>Dalgylch Caernarfon</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o goed a blodau a lincs gwell I dros yr Aber / parc Eryri</li> <li>• Celf a lliw ym mhobman</li> <li>• Dim sbwriel</li> <li>• Cyngor tref wedi cyflogi person i fynd o amgylch stadau dai i gasglu sbwriel gwaith chwynnu ayb, byddai'n braf gallu cael yr un math o beth yng nghanol y dref</li> <li>• Mwy o lefydd gwyrdd ynghanol y dref</li> </ul>

# Eitem 7

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>30 Tachwedd 2021</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Nia Jeffreys</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</b>
<b>Rhif Cyswllt:</b>	<b>32335</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Achos Busnes Hunaniaith</b>

---

#### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Parhau yn uned o fewn y Cyngor am y tro, gan fuddsoddi £203,880 mewn prif swyddog am gyfnod o 4 blynedd i ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol.

---

#### RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Ymateb i gais y Cabinet ar 24/11/2020 am waith pellach ar yr opsiynau posib gan sefydlu tasglu o swyddogion i greu achos busnes ar gyfer yr opsiynau.

---

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Sefydlwyd Hunaniaith fel uned weithredol o fewn Uned Hyrwyddo'r Gymraeg, Cyngor Gwynedd, yn 2009. Cyn hynny roedd Menter Iaith Gwynedd yn gweithredu fel prosiect a reolwyd gan gwmni CYMAD o 2006.
- 1.2 Yn gyfredol, mae Hunaniaith yn gweithredu dan fantell Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 (Maes 4: Iaith y Gymuned). Mae'r Cynllun Hybu yn eistedd o fewn y fframwaith polisi a gynigir gan Gynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2018 – cynllun statudol a hyrwyddir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Mae'r Cynllun hwnnw yn nodi gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau Llesiant Gwynedd.

- 1.3 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg (2015), mabwysiadwyd y ddyletswydd i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Cymru ac mae'r gofyniad ar awdurdodau lleol i weithredu Cynlluniau Hybu'r Gymraeg hefyd wedi golygu cynnydd yng nghyfrifoldebau cynghorau unedol yn y cyswllt hwnnw.
- 1.4 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod yna gydnabyddiaeth o sefyllfa ieithyddol arbennig Gwynedd a chefnidir sefydlu Hunaniaith fel uned strategol o fewn Cyngor Gwynedd, mae'r brif ffynhonnell incwm – Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2019-21, Llywodraeth Cymru – wedi canolbwyntio'n bennaf ar ariannu gweithgaredd sy'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg yn unol â Thema 2 y strategaeth iaith genedlaethol, Cymraeg 2050, 'Cynyddu'r Defnydd o Gymraeg'. Mae pwyslais y cynllun grant hwnnw ar weithredu ar lawr gwlad i hyrwyddo a hwyluso cynnydd yn y defnydd cymdeithasol a wneir o'r Gymraeg.
- 1.5 Atgyfnerthir y ffocws cymunedol hwnnw gan raglen waith cyfredol Hunaniaith a'r blaenoriaethau gweithredol a nodir dan amodau'r grant presennol, sef:
- dylanwadu ar iaith y teulu,
  - cryfhau'r cyswllt rhwng ysgolion ar gymuned,
  - cynnig gweithgareddau i ystod eang o drigolion, gan gynnwys grŵp oedran 16-24 oed,
  - datblygu dealltwriaeth o arferion ieithyddol trigolion Gwynedd.
- 1.6 Dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ac amodau'r cynllun grant, mae Hunaniaith, yn y blynyddoedd diweddar, hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Menter Iaith Bangor. Sefydlwyd Menter Iaith Bangor yn 2013 fel grŵp gwirfoddol a oedd eisiau crynhoi a dwysau'r ymdrechion i gynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y ddinas.
- 1.7 Yn 2016, derbyniwyd grant o £300,000 gan Lywodraeth Cymru, dan y cynllun Bwrw 'Mlaen, i sefydlu Popdy fel canolfan i weithgareddau a mudiadau Cymraeg ym Mangor. Cyfeiriwyd 30% o grant Hunaniaith (£50,000) ers hynny i gynnal swyddog(ion) datblygu sy'n gweithio'n benodol mewn cydweithrediad â Menter Iaith Bangor. Ar hyn o bryd cyflogir un swyddog datblygu llawn amser a chynorthwydd datblygu rhan-amser yn benodol i weithio gyda Menter Iaith Bangor.
- 1.8 Dynodir swyddogaeth graidd Hunaniaith fel:
- swyddogaeth ysgogol a grymusol ar y cyd â chymunedau a rhwydweithiau lleol,
  - swyddogaeth weithredol i ysgogi a gweithredu prosiectau uniongyrchol a chynaliadwy ar lawr gwlad.
- 1.9 Penodwyd Iaith Cyf yn 2020 i ymgymryd â'r gwaith o ystyried beth yw'r opsiynau posib ar gyfer strwythur Menter Iaith yng Ngwynedd i'r dyfodol gan roi sylw i'r strwythur presennol, cwmni hyd fraich, elusen, cwmni nid er elw, dyrannu grant i gymunedau neu unrhyw opsiwn posib arall.
- 1.10 Adroddwyd yn ôl ar y gwaith hwn i'r Cabinet ar 24/11/2020 ble gofynnwyd am waith pellach ar yr opsiynau posib gan sefydlu tasglu o swyddogion i greu achos busnes ar gyfer yr opsiynau. Fe gyflwynir ffrwyth y gwaith hynny i chi heddiw.

## 2. Opsiynau posib

2.1 Amlinellir prif ystyriaethau pob opsiwn yn ei dro isod, gyda manylion pellach i'w gael yn Atodiad 1.

### **Opsiwn 1 – Parhau yn uned wasanaeth penodol o fewn y Cyngor**

- Ni fyddai'r model llywodraethu yn newid o'r sefyllfa gyfredol
- Dibynnol ar grant y Llywodraeth i gynnal y swyddi cyfredol
- Byddai angen sicrhau sut i gynhyrchu'r budd a'r effaith mwyaf yn gymunedol gan ddenu aelodau cymunedol newydd i Grŵp Strategol Hunaniaith
- Angen ystyried sut fyddai Hunaniaith yn denu cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill.

### **Opsiwn 2 – Cwmni dan reolaeth y Cyngor**

- Byddai angen sefydlu cwmni all fod ar sail cyfranddaliadau neu yn gweithredu ar sail nid am elw, cwmni drwy warant. Byddai staff presennol Hunaniaith yn trosglwyddo i'r cwmni newydd, drwy drefniadau TUPE
- Byddai angen penodi Prif swyddog ar gyfer y cwmni a chostau cynnal cwmni. Byddai angen ariannu'r costau ychwanegol drwy ddenu grantiau newydd a chymryd 10% o gyfraniad o bob grant fel cyfraniad tuag at gostau rhedeg cwmni
- Byddai angen penodi bwrdd cyfarwyddwyr o blith aelodau a/neu swyddogion y Cyngor
- Byddai'r cwmni newydd yn ddibynnol ar ddenu grant y Llywodraeth i ariannu'r swyddi presennol, ac felly angen sicrhau bod arian cyfatebol ar gael i ddenu'r grant hwnnw
- Byddai'r cwmni'n agored i wneud ceisiadau am gyllid prosiect o ffynonellau amrywiol, ymateb i gomisiynau a gweithredu mewn modd masnachol.

### **Opsiwn 3 - Sefydlu endid(au) annibynnol ar wahân i Gyngor Gwynedd**

- Byddai angen sefydlu cwmni na fyddai'r Cyngor yn berchen arno neu mewn rôl leiafrifol yn gyfreithiol e.e. cwmni cyfyngedig trwy warant (a allai hefyd ymgeisio am statws elusenol) neu'n sefydliad corfforedig elusenol
- Byddai staff presennol Hunaniaith yn trosglwyddo i'r cwmni newydd, drwy drefniadau TUPE ac felly byddai angen ariannu cyfraniadau pensiwn uwch
- Byddai angen penodi Prif swyddog ar gyfer y cwmni a chostau cynnal cwmni. Byddai angen ariannu'r costau ychwanegol drwy ddenu grantiau newydd a chymryd 10% o gyfraniad o bob grant fel cyfraniad tuag at gostau rhedeg cwmni
- Byddai angen penodi Bwrdd Cyfarwyddwyr
- Byddai'r cwmni newydd yn ddibynnol ar ddenu grant y Llywodraeth i ariannu'r swyddi presennol, ac felly angen sicrhau bod arian cyfatebol ar gael i ddenu'r grant hwnnw
- Byddai'r cwmni'n agored i wneud ceisiadau am gyllid prosiect o ffynonellau amrywiol, ymateb i gomisiynau a gweithredu mewn modd masnachol.

## Deilliannau

Mi fyddai pob un o'r opsiynau uchod yn cyflawni'r deilliannau canlynol ar wahanol raddfa.

- Y gallu i ehangu sgôp a natur gwaith Hunaniaith
- Y gallu i ddenu incwm o ffynonellau eraill
- Y gallu i sicrhau llais y gymuned yn nhrefniadau blaenoriaethau Hunaniaith
- Mwy o degwch o ran rhannu'r grant ar draws y sir.

Gwelir matrices yn Atodiad 2 yn amlinellu sut mae pob opsiwn yn cwrdd â'r deilliannau uchod.

### 3. Dadansoddiad ariannol

3.1 Mae gwaith cyllid wedi ei wneud i amcangyfrif costau arfaethedig pob opsiwn fel y gwelir yn y tabl canlynol.

	<b>Costau arfaethedig Opsiw 1 £</b>	<b>Costau arfaethedig Opsiw 2 £</b>	<b>Costau Arfaethedig Opsiw 3 £</b>
Staff	143,100	195,740	225,970
Eiddo	0	7,500	7,500
Gwasanaethau a Chyflenwadau	23,790	35,650	28,990
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>166,890</b>	<b>238,890</b>	<b>262,460</b>
Grant y Llywodraeth	(166,890)	(166,890)	(166,890)
<i>Grantiau newydd</i>	<i>0</i>	<i>(72,000)*</i>	<i>(95,570)*</i>
<b>Cyfanswm net</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

*\* Byddai angen denu grantiau cyfwerth â £720,000 neu £955,700 i gael 10% o gyfraniad ohonynt tuag at reoli'r fenter*

3.2 O ran costau opsiwn 1, dylid cofio bod cyllid cyfatebol o ran gofod swyddfa ac amser Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu hefyd yn gyfraniad tuag at ddenu'r grant. O ran costau opsiwn 2, mae costau staff yn cynnwys cyflog prif swyddog i arwain y fenter. O ran costau opsiwn 3, mae costau yn cynnwys cyflog prif swyddog, cyflog swyddog cefnogol rhan amser ynghyd a chostau pensiwn uwch.

3.3 Yn sgil gwaith pellach ar lefelau incwm mentrau iaith eraill ar draws Cymru, daeth yn amlwg nad yw mentrau eraill yn denu grantiau ar y lefel yma ond yn hytrach yn denu incwm drwy elfennau masnachol, na fyddai'n addas i Wynedd e.e. creu a chynnal clybiau gwarchod a chodi ffi ar fynychwyr.

3.4 Rhaid nodi bod cryn dipyn o gystadleuaeth am y grantiau hynny ac felly'n anodd rhoi sicrwydd am ddenu unrhyw grantiau ychwanegol yn y dyfodol.

3.5 Mae ansicrwydd yn parhau am oblygiadau Brexit ar unrhyw grantiau ewropeiaidd i'r dyfodol.

### 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei fabwysiadu yn syth.

4.2. Yn sgil y wybodaeth o ran maint y grantiau newydd fyddai angen eu denu a chynnydd mewn costau ar gyfer opsiwn 2 a 3, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo parhau yn uned o fewn y Cyngor am y tro, gan fuddsoddi £203,880 mewn prif swyddog am gyfnod o 4 blynedd. Bydd y prif swyddog yn canolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grwp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol.

## **5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

5.1. Rydym wedi ymgysylltu gyda Grŵp Strategol Hunaniaith.

### **5.2. Barn y Swyddogion Statudol:**

#### **i. Y Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cael mewnbwn i'r prosiect yma ac yn fodlon a phriodoldeb yr argymehlliad.

#### **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Wedi i swyddogion yr Adran Gyllid gydweithio ag awdur yr adroddiad, cadarnhaf fod y ffigyrau sy'n rhan 3 o'r adroddiad yn gywir, neu yn amcangyfrifon teg lle'n briodol. Yn yr hinsawdd bresennol, gydag ansicrwydd am sefyllfa'r grant craidd, a prinder grantiau eraill yn gyffredinol, cytunaf byddai'n ddarbodus i barhau i ddarparu'r gwasanaeth yma'n fewnol ar hyn o bryd.

Mae modd i'r Cabinet gymeradwyo ymrwymiad perthnasol o'r Gronfa Trawsffurfio am swydd ychwanegol, dros gyfnod 4 blynedd ar gost o £203,880 er mwyn rheoli'r gwasanaeth a gwella'r sefyllfa. Hynny yw, gellid rhagfarnu bid un-tro, cyn blaenoriaethu'r bidiau un-tro eraill sydd i'w cymeradwyo o'r Gronfa Trawsffurfio i gefnogi egwyddorion Cynllun y Cyngor.



## ATODIAD 1

	<b>Opsiwn 1 – gwenud dim</b>	<b>Opsiwn 2 – Cwmni Llywodraeth Leol</b>	<b>Opsiwn 3 – sefydlu endid annibynnol</b>
<i>Disgrifiad</i>	<i>Parhau yn uned wasanaeth penodol o fewn strwythur Cyngor Gwynedd</i>	<i>Cwmni ym mherchnogaeth y Cyngor</i>	<i>Sefydlu endid(au) annibynnol ar wahan i Gyngor Gwynedd</i>
Manteision	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hwyluso cyfleoedd i gydweithio gyda adrannau eraill o fewn y Cyngor.</li> <li>Y gallu i ddenu a rheoli gwirfoddolwyr i gynorthwyo gwaith y fenter.</li> <li>Atebolrwydd democrataidd eisoes yn ei le trwy strwythurau'r Cyngor (e.e. Grwp Strategol Hunaniaith).</li> <li>Sicrhau perthynas â strwythurau atebolrwydd eraill o ran y Gymareg o fewn y Cyngor (e.e. Pwyllgor Iaith).</li> <li>Rhwydweithiau eisoes wedi eu sefydlu e.e. Timau Cefnogi Cymunedau, arbenigedd denu grantiau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai modd ehangu ar sgôp a natur y gweithgareddau o ganlyniad i ddenu rhai ffynonellau incwm ychwanegol.</li> <li>Denu a rheoli gwirfoddolwyr i gynorthwyo gwaith y fenter.</li> <li>Cyfle i sefydlu trefn arweiniol mwy ymatebol i anghenion y gwaith.</li> <li>Modd sicrhau cynrychiolaeth o fewn rhwydweithiau perthnasol o fewn y Cyngor.</li> <li>Modd sefydlu fforymau ymgynghorol gwirfoddol yn ôl y gofyn.</li> <li>Rhwydweithiau eisoes wedi eu sefydlu e.e. Timau Cefnogi Cymunedau, arbenigedd denu grantiau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai modd ehangu ar sgôp a natur y gweithgareddau o ganlyniad i ddenu ffynonellau incwm ychwanegol.</li> <li>Denu a rheoli gwirfoddolwyr i gynorthwyo gwaith y fenter.</li> <li>Bwrdd Cyfarwyddwyr yn agored i ddenu aelodau yn unol â'r angen am ystod o sgiliau ac arbenigeddau penodol.</li> <li>Annibynnol o'r Cyngor ac felly yn fwy tebygol o ennyn perchnogaeth cymunedol ehangach.</li> <li>Medru cyflwyno llais arbenigol annibynnol o fewn rhwydweithiau partneriaethol y Cyngor ac mewn fforymau eraill.</li> <li>Medru gweithredu fel partner cydradd â mentrau iaith eraill o fewn Mentrau iaith Cymru.</li> </ul>
Anfanteision	<ul style="list-style-type: none"> <li>Methu ymgeiso am grantiau allanol ychwanegol e.e. Cronfa Cymunedol y Loteri.</li> <li>Canfyddiad o Hunaniaith fel asiant i'r Cyngor yn medru cynhyrchu disgwyliadau afreal a chyfyngu'r gallu i ymwneud â chymunedau'n effeithiol.</li> <li>Penderfyniadau ynghlwm â phrosesau biwrocraidd y Cyngor.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim perchnogaeth uniongyrchol gan gyrff nac unigolion y tu allan i'r Cyngor.</li> <li>Canfyddiad o Hunaniaith fel asiant i'r Cyngor yn parhau'n rhwystr posibl.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim strwythurau cefnogol mewn lle o bosib.</li> <li>Ansicrwydd grant blynyddol ac felly'n cael effaith ar hyfywdra'r fenter.</li> <li>Angen profi'r farchnad o ran lefel diddordeb yn y gymuned.</li> </ul>
Risgiau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal y sefyllfa gyfredol sy'n gyfyngedig i Grant y Llywodraeth – risg iddo leihau.</li> <li>Na fydd yr adnodd bychan yn medru ddarparu cefnogaeth ar draws y sir a chwrrd ag anghenion eang ac amrywiol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Methu denu aelodau i eistedd ar Fwrdd y Fenter.</li> <li>Methu denu grantiau.</li> <li>Methu penodi Prif Swyddog adddas.</li> <li>Angen bod yn glir pwy arall sy'n gwneud gwaith tebyg yng Ngwynedd i asesu'r</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Methu denu aelodau i eistedd ar Fwrdd y Fenter.</li> <li>Methu denu grantiau.</li> <li>Methu penodi Prif Swyddog adddas.</li> <li>Angen bod yn glir pwy arall sy'n gwneud gwaith tebyg yng Ngwynedd i asesu'r</li> </ul>

	<b>Opsiwn 1 – gwenud dim</b>	<b>Opsiwn 2 – Cwmni Llywodraeth Leol</b>	<b>Opsiwn 3 – sefydlu endid annibynnol</b>
<i>Disgrifiad</i>	<i>Parhau yn uned wasanaeth penodol o fewn strwythur Cyngor Gwynedd</i>	<i>Cwmni ym mherchnogaeth y Cyngor</i>	<i>Sefydlu endid(au) annibynnol ar wahan i Gyngor Gwynedd</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Methu sicrhau ymrwymiad aelodau i eistedd ar y Grŵp Strategol.</li> <li>Sicrhau perchnogaeth y gymuned o'r rhaglen waith.</li> </ul>	potensial go iawn i ddenu grantiau newydd.	<p>potensial go iawn i ddenu grantiau newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Oes diddordeb allan yn y gymuned i reoli'r fenter?</li> </ul>
Goblygiadau cyfreithiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Union oblygiadau i'w cadarnhau pan fydd y model yn glir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mudiad cymunedol i gymryd rheolaeth o'r fenter – boed yn fudiad newydd neu'n fudiad sy'n bodoli eisoes.</li> <li>Endid annibynnol ac felly dim rôl i'r Cyngor o ran mewnbwn na rheolaeth.</li> </ul>
Goblygiadau ariannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfle i adolygu cyfleoedd i ddenu cyllid o ffynhonnellau eraill (mewnol ac allanol).</li> <li>Methu ymgeisio am rhai grantiau allanol e.e. Cronfa Gymunedol y Loteri.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim newid i'r cyfraniad pensiwn.</li> <li>Byddai modd ariannu strwythur staffio newydd drwy gymryd elfen o bob cais grant sy'n cael ei wneud e.e. 10% o bob cais yn mynd tuag at gostau staffio.</li> <li>Angen eglurder beth fyddai'n digwydd i'r ariannu ar hyn o bryd – a fydd hyn yn parhau fel cefnogaeth i'r fenter ynte lle'r fenter fydd sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y grant?</li> <li>Mae staff Hunaniaith yn gweithredu elfennau o Gynllun Hybu'r Cyngor, byddai angen cyllido'r elfen yma pe bai model darparu newydd mewn lle (ynghyd a chaffael y gwaith).</li> <li>Modd cyflwyno ceisiadau am gyllid prosiect neu gyfalaf o ffynonellau amrywiol, bidio am waith comisiwn a gweithredu mewn modd masnachol e.e. cwmni cyfieithu cymunedol. Iwan, ydi hyn yn gywir?</li> <li>Byddai angen sefydlu neu gomisiynu gwasanaeth cefnogol gan y Cyngor neu gwmni arall.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfraniad pensiwn uwch a bydd angen sicrhau bod bond mewn lle.</li> <li>Byddai modd ariannu strwythur staffio newydd drwy gymryd elfen o bob cais grant sy'n cael ei wneud e.e. 10% o bob cais yn mynd tuag at gostau staffio.</li> <li>Angen eglurder beth fyddai'n digwydd i'r ariannu ar hyn o bryd – a fydd hyn yn parhau fel cefnogaeth i'r fenter ynte lle'r fenter fydd sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y grant?</li> <li>Mae staff Hunaniaith yn gweithredu elfennau o Gynllun Hybu'r Cyngor, byddai angen cyllido'r elfen yma pe bai model darparu newydd mewn lle (ynghyd a chaffael y gwaith).</li> <li>Medru denu grantiau ychwanegol.</li> <li>Modd cyflwyno ceisiadau am gyllid prosiect neu gyfalaf o ffynonellau amrywiol, bidio am waith comisiwn a gweithredu mewn modd masnachol e.e. cwmni cyfieithu cymunedol.</li> <li>Byddai angen sefydlu neu gomisiynu gwasanaeth cefnogol gan gwmni arall.</li> </ul>

	<b>Opsiwn 1 – gwenud dim</b>	<b>Opsiwn 2 – Cwmni Llywodraeth Leol</b>	<b>Opsiwn 3 – sefydlu endid annibynnol</b>
<i>Disgrifiad</i>	<i>Parhau yn uned wasanaeth penodol o fewn strwythur Cyngor Gwynedd</i>	<i>Cwmni ym mherchnogaeth y Cyngor</i>	<i>Sefydlu endid(au) annibynnol ar wahan i Gyngor Gwynedd</i>
Goblygiadau staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen adolygu'r strwythur staffio presennol i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas e.e. prif swyddog llawn amser yn arwain.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Goblygiadau TUPE ac felly bydd angen cyfnod digonol i ymgynghori gyda staff.</li> <li>• Newidiadau posibl mewn amodau cyflogaeth i staff yn y dyfodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Goblygiadau TUPE ac felly bydd angen cyfnod digonol i ymgynghori gyda staff.</li> <li>• Newidiadau posibl mewn amodau cyflogaeth i staff yn y dyfodol.</li> </ul>
Trefniadau Llywodraethu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim newid yn gyfreithiol ond byddai angen ystyried lle yw'r lle gorau i'r Fenter eistedd o fewn strwythur y Cyngor o ran gwaith a chyswllt cymunedol e.e. Adran Economi a Chymuned.</li> <li>• Byddai angen adolygu'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau eu bod yn addas i bwrpas e.e. Grwp Strategol ac Is grwpiau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Endid hyd-braich.</li> <li>• Dim modd sefydlu statws elusenol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Endid annibynnol drwy sefydlu Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant neu Elusen.</li> </ul>

## ATODIAD 2

### Matrics asesu opsiynau hunaniaith

Deilliannau	Opsiwn 1 – parhau yn uned wasanaeth o fewn y Cyngor	Opsiwn 2 – sefydlu cwmni hyd-braich ym mherchnogaeth y Cyngor	Opsiwn 3 – sefydlu endid annibynnol
Sefydliad cynaladwy ar gyfer y dyfodol	Parhad y 'status quo'	Y Cyngor yn medru tanysgrifennu costau pensiwn Ansicrwydd am lefel grantiau newydd posib yn y dyfodol	<b>Costau pensiwn uwch o bosib yn anghynladwy. Ansicrwydd am lefel grantiau newydd posib yn y dyfodol</b>
Y gallu i ehangu sgop a natur y gwaith	Llai o sgôp i wneud hyn fel rhan o'r Cyngor	Mwy o sgôp i wneud hyn drwy ddenu grantiau newydd	Sgôp llawn i fedru gwneud hyn fel menter gymunedol
Y gallu i sicrhau llais y gymuned yn nhrefniadau blaenoriaethu	Llai o ddiddordeb gan y gymuned gan ei fod yn gysylltiedig â'r Cyngor	Haws enyn diddordeb y gymuned mewn menter hyd braich	Haws enyn diddordeb y gymuned mewn menter gymunedol
Y gallu i ddenu incwm o ffynhonellau eraill	Llai o sgôp i wneud hyn fel rhan o'r Cyngor	Mwy o sgôp i ddenu grantiau ychwanegol nag o fewn y Cyngor ond holl grantiau ddim ar gael i sefydliad hyd-braich ychwaith	Sgôp i ddenu grantiau ychwanegol wedi ei agor yn llawn

Tud. 28

Noder y risg i'r Cyngor gydag Opsiwn 2 a 3 os nad ydynt yn llwyddiannus h.y. risg i enw da'r Cyngor o fod wedi trosglwyddo i fenter anghynladwy a risg i'r Cyngor orfod cymryd y fenter yn ôl.

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>30 Tachwedd 2021</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Dilwyn Morgan Y Cyngorydd Dafydd Meurig</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Aled Gibbard, Uwch Reolwr</b>
<b>E-bost Cyswllt:</b>	<b>aledwyngibbard@gwynedd.llyw.cymru</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cynllun Awtistiaeth 2021-23</b>

#### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Awtistiaeth 2021-23 a gynhwysir yn Atodiad 1.
- 1.2 Hefyd, gan fod hwn yn fater o'r flaenoriaeth uchaf, gofynnir i'r Cabinet ragfarnu'r broses 'bidiau' flynyddol a chaniatáu 'bid' am £48,000 o gyllideb refeniw parhaol rŵan, er mwyn ariannu swydd Cydlynedd Awtistiaeth a 2 swydd Gwaith Cymdeithasol ar gost flynyddol o £144k, gyda'r Cyngor yn cyfrannu traean o'r gost.

#### 2 CEFNDIR

- 2.1 Bydd aelodau eisoes yn ymwybodol bod y maes awtistiaeth yn flaenoriaeth i ni fel Cyngor, ac felly mae hi'n bleser cyflwyno'r Cynllun yma gerbron y Cabinet heddiw.
- 2.2 Bydd aelodau'n cofio, o gyflwyniadau cynt, bod hi'n fwriad gwneud gwelliannau o fewn y maes, a hyn ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol, sef y Bwrdd Iechyd a hefyd Cyngor Ynys Môn.
- 2.3 Mae'r gwaith yn rhannol wedi ei ddylanwadu gan y gwaith sydd wedi dilyn yn sgil cwyn a wnaethpwyd i'r Cyngor yn ymwneud â gwasanaeth a ddarparwyd. Cyfeiriwyd y gŵyn at yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus, a bu i'r Ombwdsman roi argymhellion i ni fel Cyngor. Mae'r Cynllun hwn felly wedi ceisio ymateb i'r dysgu o'r gŵyn ynghyd ag argymhellion yr Ombwdsman, ac mae'n bwysig nodi ein hymrwymiad parhaus i geisio gwella ein gwasanaeth mewn ymateb i farn ein defnyddwyr.
- 2.4 Rhan allweddol arall sydd wedi digwydd er mwyn sicrhau ein bod yn creu Cynllun Awtistiaeth gyda'r sylfaen cywir, oedd comisiynu Ymgynghorydd allanol (sef Hugh

Morgan, arbenigwr amlwg iawn ym maes anabledd dysgu ac awtistiaeth yma yng Nghymru), i gynnal adolygiad cynhwysfawr amlasiantaethol ar y maes, gan lunio i ni ei farn ar beth oedd angen newid a datblygu.

- 2.5 Gofynnwyd iddo ganolbwyntio yn benodol ar y meini prawf ar gyfer derbyn gwasanaeth; y broses asesu; mynediad i blant a phobl ifanc gydag awtistiaeth â gallu uchel, awtistiaeth a dim anabledd dysgu, a'r cyfnod trosglwyddo i wasanaethau oedolion. Y bwriad oedd creu cynllun a fyddai'n sicrhau fod y plant a'r bobl ifanc yn cael mynediad at gefnogaeth wedi ei deilwra at eu hanghenion unigol.
- 2.6 Bu adolygiad yr ymgynghorydd felly'n allweddol i ni ar gyfer datblygu'r Cynllun Awtistiaeth sydd gerbron heddiw.
- 2.7 Mae'n bwysig tynnu sylw aelodau hefyd at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ymgynghorol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth. Daeth y Cod Ymarfer hwn i rym ym mis Medi eleni. Mae'r Cod yn gofyn am Gynllun Awtistiaeth Lleol yn ogystal â'r angen i'w adolygu'n flynyddol, felly fel Cyngor ac isranbarth, byddwn mewn lle da o ran y Cod Ymarfer o gael y Cynllun yma wedi ei fabwysiadu ac yn weithredol. Mae'r ddogfen yn God Ymarfer Statudol sydd yn gosod rhagdybiaeth gyfreithiol y bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r gofynion. Yn anorfod felly, mae gwaith yr ymgynghorydd wedi rhoi ystyriaeth i'r Cod Ymarfer newydd wrth gwblhau'r adolygiad, ac mae'r Cynllun yn ei gyfarch.
- 2.8 Er i'r gwaith cychwynnol ddechrau o gyfeiriad Gwasanaeth Derwen (sef gwasanaeth integredig Môn a Gwynedd i blant anabl a phlant sy'n wael), un rhan o ddarlun mawr yw'r gwasanaeth hwn. Nid oes modd ei ystyried fel endid ar wahân i'r holl wasanaethau cyhoeddus sydd yn ymwneud â maes gwaith awtistiaeth. Mae adolygiad yr Ymgynghorydd yn cadarnhau bod gan Wasanaeth Derwen (Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys a Seicolegwyr) arbenigedd a dealltwriaeth dda o blant a phobl ifanc gydag awtistiaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi nad yw awtistiaeth o reidrwydd yn anabledd amlwg a gweledol ac mae'n anorfod felly bod plant ar y sbectrwm yn dod i gysylltiad gyda gwasanaethau plant ar lefel mwy cyffredinol. O ganlyniad mae Gwasanaeth Derwen hefyd yn gweithredu fel adnodd sy'n darparu cyngor ac arweiniad i wasanaethau plant ar lefel mwy cyffredinol.
- 2.9 Mae'n bwysig amlygu cyd-destun i chi fel aelodau o ran y cynnydd sylweddol sydd wedi bod yn niferoedd y plant sy'n derbyn diagnosis o awtistiaeth yn y Sir. Rydym yn rhagweld y bydd cynnydd sylweddol yn y galw ar wasanaethau plant yn ogystal â gwasanaethau oedolion dros y blynyddoedd i ddod. Mae wedi dod yn amlwg fod bwlch mewn gwasanaeth ar gyfer y plant hynny gydag awtistiaeth, ond heb anabledd dysgu, ac yn arbennig felly ar gyfer pobl ifanc 14-17 oed. Bydd cydweithio gyda'r Adran Addysg felly yn hanfodol wrth symud ymlaen.

### **3 Y CYNLLUN**

- 3.1 Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae'n hanfodol gyda'r maes yma bod partneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd os am weld newid cynaliadwy ac effeithiol i'r

dyfodol. Wedi derbyn adolygiad yr Ymgynghorydd allanol, bu i ni fel Cyngor ofyn i Gyngor Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr am eu cytundeb i sefydlu Bwrdd Prosiect Awtistiaeth isranbarthol, er mwyn creu Cynllun Awtistiaeth 2021-23 i'r ardal leol. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid am gytuno i'r cynnig.

- 3.2 Er y bydd aelodau'n gwbl ymwybodol o'r cyd-destun gwaith o ran Covid-19, mae'n bwysig nodi bod y gwaith sydd wedi digwydd ar draws partneriaid, a hefyd o ran gwaith yr Ymgynghorydd allanol, wedi digwydd tra hefyd yn ceisio ymdopi gydag un o heriau mwyaf yn hanes ni fel Cyngor a'r sector gyhoeddus ehangach. Mae felly yn destament i'n hymrwymiad i'r maes, bod y gwaith a ddechreuodd cyn y pandemig gychwyn, wedi parhau serch y pwysau aruthrol ar reolwyr, swyddogion a staff. Hoffwn felly gydnabod ein diolch i bawb am flaenoriaethu'r gwaith yn ystod cyfnod mor heriol.
- 3.3 Sefydlwyd Bwrdd Prosiect yn 2020, ac mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae nifer o'r gwasanaethau yn cael eu darparu ar y cyd felly roedd yn hanfodol i'r Cynllun gael ei ddatblygu ar y cyd. Yn sgil yr adolygiad gan yr Ymgynghorydd, roedd cyfle euraidd i'r Cyngor fod yn cynnig arweiniad a chyfeiriad clir i sicrhau fod cynllun amlasiantaethol yn cael ei datblygu gan wella profiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar draws yr is-ranbarth.
- 3.4 Bu i'r Cyngor gyflwyno argymhellion adolygiad yr Ymgynghorydd allanol i'r Bwrdd Prosiect, a derbyniwyd hwy yn llawn ganddynt. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi bod yn treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn rhoi sylw i'r argymhellion, er mwyn datblygu'r Cynllun Awtistiaeth yma, ynghyd â datblygu camau gweithredu.
- 3.5 Y bwriad yw y bydd y Bwrdd Prosiect Awtistiaeth amlasiantaethol yn parhau i gyfarfod gan gydlynw a monitro'r Cynllun yma a hefyd cynllun ardal o dan God Ymarfer y Llywodraeth. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn ystod Rhagfyr 2021 a'r bwriad yw cwrdd hyd at bedair gwaith y flwyddyn. Y bwriad yw i bob sefydliad adrodd ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun drwy eu trefniadau llywodraethu eu hunain.
- 3.6 Fel bydd yr aelodau'n ei weld o edrych ar y camau gweithredu, mae ambell gam gweithredu eisoes wedi ei roi ar waith y. Mae Cydlynnydd eisoes wedi'i adnabod ac wedi cychwyn er mwyn gweithredu rhai elfennau. Yn y lle cyntaf, bydd yn cynorthwyo gydag elfennau o ddatblygu'r rhaglen hyfforddi a chanolbwyntio ar gasglu data a gwybodaeth gan asiantaethau perthnasol ynglŷn â phlant ac oedolion gydag awtistiaeth. Bydd hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Prosiect gael darlun cadarn wrth adolygu'r Cynllun a chynllunio ymlaen unwaith fydd y Cynllun wedi'i fabwysiadu.
- 3.7 Er gwybodaeth i aelodau, mae yna Dîm Awtistiaeth Cenedlaethol (IAS) ac mae rôl ganolog ganddynt i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gyda nod penodol o gynnwys pobl awtistig yn y broses o ddatblygu a lledaenu adnoddau. Yn ogystal mae cymorth ôl-

ddiagnostig yn cael ei ddarparu gan wasanaethau iechyd niwroddatblygiadol a'r IAS ar gyfer oedolion, rhieni plant, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Bellach mae cynrychiolydd o'r Adran Plant ac Oedolion yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Tîm Awtistiaeth Genedlaethol er mwyn rhannu gwybodaeth a hyrwyddo datblygiadau yn y maes.

#### **4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

- 4.1 Mae'r maes awtistiaeth yn faes blaenoriaeth i ni fel Cyngor ac felly mae mabwysiadu'r Cynllun yn rhan bwysig o sicrhau ein bod yn gweithredu ar y flaenoriaeth.
- 4.2 Byddwn yn cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer newydd sydd wedi dod i rym ym Medi 2021. Mae'n werth nodi bod y Cod Ymarfer yn berthnasol i bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd yng Nghymru ac mae manteision clir i weithredu cynllun ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd.
- 4.3 Mae'r Ombwdsman wedi rhoi argymhellion i'r Cyngor yn dilyn cwyn, a bydd mabwysiadu'r Cynllun yn sicrhau ein bod wedi gweithredu'r argymhellion hyn yn llawn.
- 4.4 Nid yw'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn gost niwtral ac mae angen adnoddau ychwanegol i'w wireddu. Ar gyfer ariannu'r elfen swyddi, amcangyfrifir y bydd angen buddsoddiad ychwanegol o £150,000 ar y pwynt hwn. Gan ei fod yn gynllun ar y cyd, y disgwyliad yw y bydd y partneriaid yn cyfrannu tuag at gyfanswm y gost. Rhagwelir felly y byddai cyfraniad Cyngor Gwynedd yn £50,000. Er mwyn symud ymlaen heb oedi, rydym yn awyddus i gael penderfyniad ar y bid fel rhan o fabwysiadu'r Cynllun. Os bydd gweithredu'r Cynllun yn dod â goblygiadau ariannol uwchben yr hyn sydd eisoes wedi'i adnabod, bydd y ceisiadau am adnoddau yn dod gerbron i bob sefydliad yn unol â'r disgwyliadau llywodraethu

#### **5 CYDRADDOLDEB**

- 5.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi cymryd lle gan gyfarch gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gofyniad y mae'n ei roi ar gyffwrdd cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

#### **6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Gweler y camau gweithredu oddi fewn i'r cynllun yn Atodiad 1.



## **7 BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn amlygu cefndir yr argymhelliad i fabwysiadu'r cynllun allweddol yma. Golygai waith cyd-weithio ac ymateb i newidiadau lled ddiweddar yn y fframwaith arweiniad statudol cenedlaethol i gyrraedd y pwynt yma. Ceir cyfeiriad priodol a pherthnasol at rôl adroddiad yr Ombwdsman yn ysgogi'r broses. Hyderir y bydd y penderfyniad yma yn cyfarch ei ofynion. Fodd bynnag mae'n debyg hefyd yn mynd yn ehangach na hyn drwy sefydlu cynllun awtistiaeth newydd cyfredol ar y cyd sydd yn cyfarch y Cod newydd.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod yr ymhlygiadau ariannol yn eglur yn y penderfyniad a geisir, sef cais i'r Cabinet ganiatáu 'bid' am £48,000 o gyllideb refeniw parhaol rwan.

Os am ragfarnu'r broses 'bidiau' blynyddol arferol a chaniatáu'r 'bid' yma heb ei bwysu a mesur yn erbyn 'bidiau' eraill yng nghyllideb 2022/23, mae'n hanfodol fod y Cabinet yn argyhoeddedig fod yr angen yma'n anorfod ac o'r flaenoriaeth uchaf.

## ATODIAD 1

### Cynllun Awtistiaeth 2021-23

<b>1.</b>	<b>Diffiniad o Awtistiaeth</b>
	<p>“Defnyddir y term cyflwr sbectrwm awtistig i ddisgrifio'r grŵp o symptomau datblygiadol niwro cymhleth, o ddifrifoldeb amrywiol, sy'n cael eu nodweddu gan heriau mewn rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu a chan batrymau ymddygiad, meddwl a synhwyrdd cyfyngedig neu ailadroddus” <i>(Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, Llywodraeth Cymru 2021)</i></p> <p>Mae cyflwr ar y sbectrwm awtistig (ASC) yn anabledd datblygiadol sy'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cyfathrebu, yn ymddwyn, neu'n rhyngweithio ag eraill. Efallai y bydd gan rai pobl nodweddion amlwg iawn, eraill ddim. Y llinyn cyffredin yw gwahaniaethau mewn sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu ac ymddygiad o'u cymharu â phobl nad ydynt ar y sbectrwm. Mewn merched, gall y nodweddion a gyflwynir fod yn gynnil iawn, sy'n ei gwneud hi'n anoddach adnabod yr arwyddion oherwydd gall merched a menywod fod yn dda am gelu symptomau a chuddio'r cyflwr oddi wrth ffrindiau, teulu, a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yn arbennig.</p>
<b>2.</b>	<b>Pwrpas y Cynllun</b>
<b>2.1</b>	Nod y cynllun yw darparu cyd-destun ar gyfer datblygu cyfeiriad strategol ar gyfer gwella canlyniadau i bobl ag awtistiaeth a'u gofalwyr.
<b>2.2</b>	Nododd adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol, a gynhaliwyd gan ymgynghorydd annibynnol ac adrodd i fwrdd prosiect yn cynnwys Gwasanaethau Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd, gwasanaeth Plant ac Oedolion Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl ag awtistiaeth, yn arbennig ar gyfer y rhai nad oes ganddynt anabledd dysgu.
<b>2.3</b>	Daeth y cod ymarfer awtistiaeth i rym ar 1 Medi 2021. Mae'n rhoi eglurder i fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) a / neu Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 a'r cyfrifoldebau a'r gwasanaethau y mae'n ofynnol iddynt eu darparu i gefnogi pobl awtistig yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Felly bydd y cynllun hwn yn darparu ffocws i sicrhau cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer newydd.
<b>2.4</b>	O ystyried y cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor, cyflawnir rhai o'r argymhellion trwy ailgynllunio gwasanaethau neu ail-flaenoriaethu cyllidebau. Fodd bynnag,

	<p>mae'r cynllun yn gofyn am fwy o ffocws ar godi ymwybyddiaeth, dulliau partneriaeth a gwell cydgysylltu Gwasanaethau - bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer y mentrau hyn. Yn ogystal, mae gweithio mewn partneriaeth yn darparu cyfleoedd i alinio adnoddau cymunedol a denu cyllid y trydydd sector.</p>
<b>3.</b>	<b>Materion Allweddol</b>
<b>3.1</b>	<p><b><i>Mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol</i></b> - nodwedd allweddol o bobl ag awtistiaeth yw anhawster cyfathrebu a mynegi eu hunain a'u hanghenion. Mae asesu unigolyn ag awtistiaeth heb anabledd dysgu yn heriol gan fod ei anghenion yn aml yn gudd a gall eu heffaith ddibynnu ar yr amgylchiadau. Mae teuluoedd a phobl ag awtistiaeth yn dweud wrthym fod gweithwyr proffesiynol yn aml yn colli neu'n methu â deall effaith anablu anawsterau cyfathrebu wrth gynnal asesiadau. Gall rhywun a all ymddangos yn gymwys gael anawsterau oherwydd eu hanallu i gyfathrebu neu ddeall sefyllfaoedd cymdeithasol y mae eraill yn eu cymryd yn ganiataol.</p>
<b>3.2</b>	<p><b><i>Diagnosis</i></b> - Yn unol â'r strategaeth genedlaethol, mae angen i ni ddatblygu mynediad hawdd at ddiagnosis a chefnogaeth ôl-ddiagnostig gyda chydlynu i gynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau a rhwydweithiau gofal cymdeithasol. Mae angen datblygu rôl a chanllawiau cliriach i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd wrth aros am asesiad a diagnosis.</p>
<b>3.3</b>	<p><b><i>Cyngor a Chefnogaeth ar ôl cael diagnosis</i></b> - Bydd yr ystod o anghenion pobl a'r gefnogaeth y bydd eu hangen arnynt ar ôl cael diagnosis yn amrywio'n aruthrol. Bydd gan y mwyafrif o bobl ag awtistiaeth heb anabledd dysgu anghenion gofal isel neu gymedrol a bydd eu gofynion yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu, adeiladu rhwydwaith cymdeithasol, hyrwyddo annibyniaeth, cyflogaeth, tai a chynnal sefydlogrwydd. Fodd bynnag, bydd gan rai anghenion critigol neu sylweddol a bydd angen cefnogaeth a goruchwyliaeth 24 awr arnynt. Mae mynediad at gyngor a chefnogaeth ar ôl diagnosis yn amrywiol. Mae angen datblygu canllawiau clir ynghylch lefel a math yr ymyrraeth, y cyngor, y gefnogaeth ac adolygu ôl-ddiagnosis. Byddai hyn yn sicrhau bod pobl yn gwybod / yn gallu cysylltu â gwasanaethau cymorth perthnasol.</p>
<b>3.4</b>	<p><b><i>Pobl Ifanc yn y cyfnod pontio</i></b> - Mae'r gyfran fwyaf o blant ag ASD a ddarperir gyda gwasanaeth gan Dîm Integredig Derwen yn y categori 14-17 oed. Felly mae trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn 'pinch point' ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r llwybr trosglwyddo yn gymhleth, gan nad yw oedran trosglwyddo i wasanaethau oedolion yr un peth ym mhob gwasanaeth. Mae angen canolbwyntio mwy ar y plant hynny ag awtistiaeth nad oes ganddynt anabledd dysgu ac felly na fyddent yn derbyn gwasanaeth gan Derwen ar hyn o bryd.</p>

3.5	<p><b>Hyfforddiant</b> - Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae tystiolaeth y gall codi ymwybyddiaeth sylfaenol a darparu hyfforddiant ar awtistiaeth wella gallu pobl i gyfathrebu â phobl ag awtistiaeth yn sylweddol. Rydym yn datblygu deunyddiau hyfforddi â ffocws ar ddeall awtistiaeth, gan gynnwys llyfryn gwybodaeth a modiwl e-ddysgu. Rydym wedi dechrau mapio gofynion addysg a hyfforddiant ymarferwyr. Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Mon a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr byddwn yn datblygu heini o hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol. Bydd hyn yn cael ei lywio gan waith sy'n cael ei wneud ar lefel genedlaethol trwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol.</p> <p>Yn ogystal, bydd disgwyl i gyrff statudol gynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant awtistiaeth ar gyfer eu staff, wedi'i deilwra i'w hanghenion proffesiynol.</p>	
3.6	<p><b>Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol</b> - Mae'r Gwasanaeth yn cynnig asesiad diagnostig i oedolion, ond nid ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a pobl ifanc. Mae angen cryfhau'r cysylltiad gyda'r gwasanaeth o du Gwasanaethau plant a Gwasanaeth oedolion. Mae datblygu patrwm o rannu gwybodaeth a chydweithio ar ddatblygu adnoddau defnyddiol yn y maes yn hanfodol i ddylanwadu ar wella gwasanaethau yn lleol.</p>	
3.7	<p><b>Trydydd Sector</b> - Mae angen nodi partneriaid sy'n gallu darparu gwasanaethau lefel isel i bobl ag ASD. Gall y sector gwirfoddol chwarae rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ymarferol medrus, lefel isel a chost isel i bobl ifanc efo awtistiaeth gyda neu heb ddiagnosis ffurfiol o Anableddau Dysgu yng Ngwynedd y mae angen ei gyfarch. Byddai cyflwyno model tebyg o'r fath yng Ngwynedd yn darparu gwasanaeth effeithiol sy'n gwella ansawdd bywyd pobl ifanc efo awtistiaeth; helpu i atal argyfyngau rhag digwydd, ond bydd hefyd yn lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau statudol. Bydd yr angen am wasanaethau o'r fath yn dod yn fwy a mwy pwysig os bydd y cynnydd presennol mewn diagnosis ASD yn arwain at alw uwch ar wasanaethau statudol.</p>	
4.	<b>Camau gweithredu ar gyfer 2021-22</b>	
1	<p><b>Sefydlu Bwrdd Partneriaeth Awtistiaeth Leol</b> - Yn unol â'r Cod Ymarfer, rhaid i fyrddau partneriaeth ranbarthol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am y graddau y mae canlyniadau'n cael eu gwella ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl awtistig a'u teulu neu ofalwyr. Mae angen i welliannau gwasanaeth alinio â chynllun gweithredu strategol awtistiaeth Llywodraeth Cymru. Mae angen adolygu'r cynllun lleol yn flynyddol hefyd. Ar hyn o bryd mae'r bwrdd prosiect yn cynnwys partneriaid allweddol o'r asiantaethau statudol. Felly, argymhellir bod y Bwrdd Prosiect cyfredol yn trawsnewid i Fwrdd Partneriaeth Awtistiaeth Leol, i</p>	<p><b>Amserlen</b></p> <p><b>Wedi sefydlu</b></p>

	gynnwys cynrychiolaeth ar gyfer pobl awtistig. Bydd hyn yn sicrhau goruchwyliaeth o ddatblygu a gwella gwasanaethau, casglu data strategol allweddol ac adolygiad blynyddol o'r cynllun.	
<b>2</b>	<b>Penodi Cydlynnydd / Swyddog Prosiect ar gyfer datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth</b> - Ar hyn o bryd mae prinder data mewn perthynas â niferoedd a phroffiliau plant a phobl ifanc sy'n cael diagnosis o ASD. Bydd sefydlu rôl i goladu'r wybodaeth hon ar draws yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac addysg yn cynorthwyo wrth gynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau. Byddai'r swydd hefyd yn cynnig cyswllt cyson â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol, gan osgoi unrhyw ddyblygu, nodi bylchau a datblygu rhwydwaith ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl awtistig. Bydd y swydd hefyd yn cynorthwyo i weithredu elfennau o'r cynllun gweithredu.	<b>Tachwedd 2021</b>
<b>3</b>	<b>Sefydlu Rôl Ymarferydd Pontio ASD (14-25 oed)</b> - Byddai'r swydd hon wedi'i chydleoli ar draws Gwasanaethau Anabledd Dysgu plant ac oedolion ac yn cynnwys mynediad i'r plant a'r bobl ifanc hynny lle nad oes diagnosis o anabledd dysgu.	<b>Ebrill 2022 yn ddarostyngedig ar fuddsoddiad ariannol</b>
<b>4</b>	<b>Sefydlu Rôl Ymarferydd ASD (Cefnogaeth yn ystod asesiad / diagnosis) (14-25 oed)</b> - Mae cynnydd yn y galw am asesu ASD yn golygu bod rhestr aros. Byddai darparu cyngor a chefnogaeth ar y pwynt hwn yn cynorthwyo i reoli'r galw am wasanaethau ôl-ddiagnosis ac yn hyrwyddo cymorth ac ymyrraeth gynnar gyda'r nod o leihau'r galw am wasanaeth statudol ar ôl cael diagnosis.	<b>Ebrill 2022 yn ddarostyngedig ar fuddsoddiad ariannol</b>
<b>5</b>	<b>Hyfforddiant ASD</b> - Mae rhaglen aml-haen o hyfforddiant, gan gynnwys e-ddysgu, yn cael ei datblygu. Darperir hyn ar draws gwasanaethau cyffredinol i gynyddu ymwybyddiaeth awtistiaeth yn ogystal â hyfforddiant mwy arbenigol i ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl awtistig.  Cynnal awdit o anghenion hyfforddiant staff, gan roi ystyriaeth i lefel cysylltiad rolau unigol gyda pobl awtistig. Bydd hyn yn ystyried gwaith uniongyrchol gyda pobl awtistig yn ogystal a swyddi lle mae posiblwydd, drwy cyswllt wyneb yn wyneb a'r cyhoedd, i ddod i gysylltiad ac felly angen lefel o ymwybyddiaeth am eu anghenion.	<b>Medi 2021 – Mawrth 2022</b>  <b>Tachwedd 2021 – Mawrth 2022</b>

6	<p><b>Ymgysylltu â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol -</b> Cynnal strategaeth ymgysylltu sydd o fudd i'r ddwy ochr sy'n osgoi unrhyw botensial ar gyfer dyblygu, gan sicrhau eglurder gwybodaeth a chyngor a ddarperir i oedolion a phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn cynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â chanlyniadau i bobl awtistig yng Ngwynedd.</p>	Eisoes yn digwydd
7	<p><b>Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth y trydydd sector -</b> mae angen ymchwilio ymhellach i ddatblygu gwasanaethau cymorth ymarferol medrus, lefel isel. Mae yna enghreifftiau o weithgareddau ymarferol yn cael eu cynnal gan sefydliadau trydydd sector sy'n derbyn Llywodraeth Cymru a chyllid grant arall. Gallai cyflwyno model o'r fath yng Ngwynedd ddarparu gwasanaeth effeithiol i wella ansawdd bywydau pobl ag awtistiaeth a rheoli unrhyw alw ychwanegol ar wasanaethau statudol.</p>	Ebrill 2022

Mae hwn yn gynllun o dan oruchwyliaeth Bwrdd Prosiect ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Mon a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd fframwaith monitro'n cael ei ddatblygu ar y cyd gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ogystal mae adolygiad gwasanaethau niwroddatblygiadol wedi cychwyn ers Chwefror 2021. Bydd yr adolygiad hwn wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022 ac o ganlyniad yn hysbysu ail gymal Cynllun Gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer 2022-23. Bydd unrhyw ddeilliannau o'r gwaith hwn yn cael ei adrodd i'r Bwrdd ac yn cael ei gynnwys yn y cynllun fel bo'n briodol.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## I) Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Awtistiaeth

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yn gosod allan y cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ynglŷn ag ystod ac ansawdd y gwasanaethau dylai bod ar gael yn eu hardal lleol i blant, pobl ifanc ac oedolion awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr.

Mae'r Cod yn amlygu'r cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau lechyd i sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth am awtistiaeth yn cael ei gynnwys yn eu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol sy'n cael ei ddarparu i staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae rhan 3 o'r Cod yn amlygu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth am awtistiaeth yn y gymuned. Mae angen dealltwriaeth o awtistiaeth ar draws y gymuned er mwyn cael cymdeithas sy'n sicrhau bod pobl awtistig yn cael eu cynnwys. Pwrpas y cynllun yw gweithredu'r Cod Ymarfer ar lefel leol.

### **1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Aled Gibbard

### **1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Tachwedd 2021. Fersiwn 1.0. Mae hwn yn asesiad ar y cynllun yn ei gyfanrwydd. Bwriedir gwneud asesiadau effaith pellach wrth gynllunio i weithredu rhai elfennau ohono ac wrth adolygu.

## **2) Gweithredu**

### **2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Mae'r cynllun wedi ei ddatblygu yn dilyn mewnbwn a chyfarfodydd gyda budd-deiliaid proffesiynol, gan gynnwys y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth awtistig rhanbarthol a chenedlaethol.

### **2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Fel rhan o ddatblygu'r Cod Ymarfer cyn ei weithredu, bu ymgynghoriad ar lefel genedlaethol a oedd yn cynrychioli grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

### **2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Mae'r ymgynghoriad uchod wedi amlygu rhai meysydd lle mae naill ai diffyg gwaith ymchwil neu wybodaeth gyfredol. Mae hynny wedi ei gydnabod ar lefel genedlaethol.



## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Gweithredir y cynllun yn seiliedig ar yr angen i ddatblygu gwell gwybodaeth leol e.e. amcangyfrir bod oddeutu 30,000 o bobl awtistig yng Nghymru (1 ym mhob 100), fodd bynnag nid oes gennym wybodaeth gyfredol am y nifer adnabyddus yng Ngwynedd, a beth mae hynny yn ei ddweud wrthym am y gynrychiolaeth o fewn y ffigwr hwn o safbwynt unrhyw un sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae yna fylchau yn y data sydd ar gael yn lleol, ac un o amcanion y cynllun yw ceisio sefydlu darlun mwy manwl am anghenion pobl awtistig o fewn y Sir.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Positif	Bydd y Cod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl awtistig o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu sy'n geiswyr lloches neu ffoaduriaid gan fod cymorth i bobl awtistig a'u rhieni/gofalwyr mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi bod yn elfen allweddol o'r gwaith a wneir gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (a ariennir gan Lywodraeth Cymru). Er enghraifft: mae wedi bod yn rhoi gwybodaeth a chymorth penodol i gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ei gylchlythyr ynglŷn â COVID-19.
<b>Anabledd</b>	Positif	Mae'r cod yn ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag addasiadau rhesymol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparu gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu nwyddau a chyfleusterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais o gymharu â phobl heb

		awtistiaeth. Mae'n ofynnol i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig fesul achos.
<b>Rhyw</b>	Dynion – dim	Dynion: Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall dynion fod hyd at bedair gwaith yn fwy tebygol o gael diagnosis o awtistiaeth o gymharu â merched a menywod. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio, ond gellir eu cysylltu ag astudiaethau sy'n dangos bod menywod yn fwy abl i guddio symptomau cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig (ASC) drwy ymddygiad dynwaredol ac ati. Mae pryder wedi'i leisio ynghylch effaith wahaniaethol awtistiaeth ymhlith merched ac mae clinigwyr yn ymwybodol iawn o hyn. Am y rheswm hwn, nid yw'n ddisgwyliedig y bydd y Cod yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar ddyonion.
	Merched - Positif	Merched a Menywod: Yn hanesyddol, mae cyfradd diagnosis awtistiaeth ymhlith merched a menywod wedi bod yn llawer is nag ar gyfer bechgyn a dynion. Er mai prin yw'r ymchwil sydd wedi'i gwneud, mae tystiolaeth a thystiolaeth glinigol anecdotaidd yn awgrymu bod y gwahaniaeth hwn mewn cyfraddau diagnostig i'w briodoli i sawl ffactor. Mae'r rhain yn cynnwys y ffordd y mae merched a menywod yn ymgyflwyno, maent yn aml yn fwy abl i guddio ymddygiad drwy wyllo pobl eraill o'u hamgylch a'u dynwared. Awgrymir hefyd fod adnoddau diagnostig safonol wedi'u teilwra'n fwy tuag at adnabod awtistiaeth glasurol a welir gan amlaf mewn bechgyn a dynion, tra bod merched a menywod yn gallu dangos awtistiaeth mewn ffordd fwy cynnil sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud diagnosis ohono. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall sut y gall merched a menywod awtistig ymgyflwyno'n wahanol ac y gall fod ganddynt anghenion cymorth gwahanol. Er enghraifft, gall merched ymddangos yn fwy abl i gynnal cydberthnasau cymdeithasol ond, mewn gwirionedd, maent yn blino'n lân wrth geisio addasu eu hymddygiad eu hunain i ddynwared ymddygiad pobl eraill a'r hyn yr ystyrir ei fod yn fwy derbyniol. At hynny, mae cerrig milltir pwysig mewn bywyd lle y gallai fod angen mwy o gymorth unigol ar fenywod, megis yn ystod blaenaeddfedrwydd a beichiogrwydd. Disgwylir y bydd y Gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod.
<b>Oedran</b>	Positif	Mae'r term 'pobl' yn y cod yn cyfeirio at blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r Cod yn cydnabod pob unigolyn, waeth beth fo'i oedran.
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Dim	Mae corff cynyddol o lenyddiaeth sy'n cysylltu awtistiaeth â hunaniaeth o ran rhywedd/dysfforia rhywedd, gyda chyfran

		uwch o bobl awtistig yn nodi eu bod yn uniaethu'n seicolegol â rhywedd sy'n wahanol i'r un a bennwyd iddynt pan gawsant eu geni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen gwella gwasanaethau hunaniaeth o ran rhywedd ac wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru i roi cyngor. Mae Tîm Rhywedd Cymru wedi'i leoli yn Ysbyty Dewi Sant yng Nghaerdydd. Gellir defnyddio unrhyw wybodaeth o'r Gwasanaeth hwn i lywio unrhyw fersiynau dilynol o'r Cod.
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	Dim	Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r Cod yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred.
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim	Prin yw'r dystiolaeth i ddangos sut y gall bod yn awtistig effeithio ar bobl drawsryweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a bydd y Cod Ymarfer yn cael ei werthuso o fewn dwy flynedd a bydd yn mynd i'r afael â hyn yn eu cynllun cyflawni ar gyfer y Cod Ymarfer
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Positif	Mae Gweithgor Amenedigol Cenedlaethol wedi'i sefydlu a bydd yn rhoi sylw i themâu allweddol ac atebion a awgrymir mewn perthynas â merched awtistig a Gwasanaethau amenedigol.
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Dim	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol hysbys o ran y categori priodas a Phartneriaeth Sifil.
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Positif	Ni all rhai pobl awtistig siarad neu gallent fod â chyfyngderau ieithyddol tra bod gan rhai pobl awtistig sgiliau ieithyddol da iawn. Lle mai Cymraeg yw iaith gyntaf pobl awtistig, fe gynigir y gwasanaeth yn y iaith o'u dewis hwy.
<b>Anfantais Economaidd-Gymdeithasol</b>	Dim	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol hysbys ar grwpiau gwarchoddedig na'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel.

\* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
---	------------------------------	--

<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydi	Nid yw'r cynllun yn camwahaniaethu rhwng gwahanol nodweddion. Bwriad y cynllun yw codi ymwybyddiaeth a darparu gwell gwasanaethau i bobl awtistig ac felly'n cyfarch ystod o wahanol anghenion, gan ystyried nodweddion eraill unigolion wrth wneud hynny.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Mae'r cynllun yn adnabod yr angen i helpu ystod eang o bobl sydd â gwahanol anghenion, ac i gynnig cefnogaeth yn ôl eu hangen. Mae hefyd yn cynnwys y cyfrifoldeb i asesu anghenion gofal a chefnogaeth grwpiau bregus, ac yn anelu i roi sylw perthnasol iddynt hwy. Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud ar y Cod wedi adnabod yr angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i ferched ac i ddarparu'n arbennig ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig ( gweler 3.1)
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Meithrin perthynas dda rhwng pobl awtistig a gweddill cymdeithas trwy godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant.

\* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae 65% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg ac mae'r Cyngor yn gweithredu Polisi Iaith sydd yn sicrhau "Bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod dewis iaith y defnyddiwr yn cael ei nodi a'i barchu bob amser." Mae gallu gweithredu'r polisi hwn yn gyson ar draws y sir gyfan, a sicrhau bod unigolyn yn gallu cael gwasanaeth Cymraeg os ydynt yn dymuno hynny (yn unol â'r gofyn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) yn golygu bod rhaid ystyried y Gymraeg wrth recriwtio ac wrth ddatblygu gwasanaethau. Dylid cofio bod unrhyw siaradwr Cymraeg sydd yn cael ei benodi i swydd o reidrwydd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwnnw yn Saesneg hefyd.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

3.5 **Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Gall pobl awtistig gael eu hanfanteisio yn y farchnad gwaith. Mae'r Tim Awtistiaeth Cenedlaethol wedi creu gwybodaeth benodol i godi ymwybyddiaeth a gwella sgiliau cyflogwyr er mwyn cefnogi gweithwyr awtistig yn fwy effeithiol.

3.6 **Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Mae angen sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn 3.5 yn adnabyddus i gyflogwyr lleol.

4) **Dadansoddi'r canlyniadau**

4.1 **Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth bydd y cynllun yn anelu i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i anghenion pobl awtistig wrth ddarparu gwasanaethau a bod cyfleoedd teg yn cael eu rhoi i bawb. Yn lleol byddwn yn ystyried nodweddion eraill yr unigolyn wrth weithredu.

4.2 **Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Ni ddylai'r cynllun gael effaith negyddol ar unrhyw unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig.

4.3 **Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	x
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau negyddol ond byddwn yn monitro (gweler isod) ac yn ymdrin hefo unrhyw effeithiau negyddol allai godi

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Amherthnasol

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd y cynllun yn cael ei fonitro trwy Bwrdd Awstisiaeth Lleol, ac mae'n ddisgwyliad o fewn y Cod Ymarfer yn ogystal i adolygu'r cynllun yn flynyddol. Rydym yn bwriadu cynnal asesiadau effaith pellach wrth adolygu'r cynllun er mwyn ystyried manylder yr effaith yn well.

## ADRODDIAD I'R CABINET

30 TACHWEDD 2021

<b>Aelod Cabinet:</b>	Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
<b>Pwnc:</b>	Newid trefniadau cymeradwyo symiau hyd at £100,000 o Gronfeydd
<b>Swyddogion Cyswllt:</b>	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid a Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

Er mwyn hwyluso trefniadau mwy ystwyth ar gyfer gwario, gofynnir i'r Cabinet ddirprwyo grym i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Cyllid, i ymrwymo symiau hyd at £100,000 o'r Gronfa Trawsffurfio a/neu'r Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid-19.

Bydd cymeradwyaeth ffurfiol y Cabinet yn parhau yn ofynnol ar gyfer blaenoriaethau sydd uwchlaw'r trothwy £100,000 a bydd yr adroddiadau adolygiad cyllideb rheolaidd arferol yn adrodd yn ôl ar ymrwymadau yn y cyfnod.

### 2. Cyflwyniad

Y Gronfa Trawsffurfio yw'r gronfa a ddefnyddir i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor a gynhwysir yng Nghynllun y Cyngor. Cyflwynwyd y cynllun diweddaraf i'r Cyngor llawn 4 Mawrth 2021: 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 - 2023 - Adolygiad 2021/22'.

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4215&ver=4&>

Mae'r gronfa yn cefnogi gwaith trawsffurfiol ac o natur un-tro.

Sefydlwyd y Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid-19 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21, yn dilyn derbyniad nifer o grantiau gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn oedd yn cynnwys cyllid ar gyfer y maes trawsnewid digidol.

### 3. Cefndir

Yn 2013, yn wyneb y cyfnod ariannol heriol ac o gynni o safbwynt cyllidebau llywodraeth leol, penderfynwyd newid trefn cymeradwyo gwariant o'r Gronfa Trawsffurfio, gyda pob ymrwymiad o'r Gronfa Trawsffurfio yn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet. Cyflwynwyd adroddiad Cabinet ar 2 Gorffennaf 2013 dan y teitl 'Defnyddio'r Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Buddsoddi i Arbed'.

Wedi ystyried maint y Gronfa Trawsffurfio, awgrymir dylid sefydlu trefn ddiwygiedig, oherwydd yr angen i symud ymlaen i gyflawni blaenoriaethau heb unrhyw oediad, gan gyfarch anghenion gwario sydyn. Ar gyfer ymrwymo adnoddau un-tro, mae'n addas bellach i gyflwyno trefn fwy ystwyth ar gyfer gwariant hyd at £100,000, yn ddarostyngedig ar fod y gwariant yn cydymffurfio gyda blaenoriaethau'r Cynllun Gwella / Cynllun y Cyngor. Byddai hyn yn gyson efo'r trefniadau oedd yn bodoli cyn Gorffennaf 2013.

#### 4. Cronfeydd

Gan fod cronfeydd a reserfau yn ffurfio rhan o gyllidebau'r Cyngor, mae yna ryddid i'w defnyddio yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, sydd yn gyffredinol, yn amodol ar rai trothwyon, yn caniatáu i swyddogion priodol eu defnyddio at y pwrpas y clustnodwyd ar eu cyfer. Mae'r hyn argymhellir yma'n gyson gyda'r hawl sydd gan brif swyddogion i awdurdodi trosglwyddiadau rhwng penawdau'r gyllideb hyd at £100,000.

Neilltuwyd dros £4 miliwn yn y Gronfa Trawsffurfio yn ystod 2021/22, sydd yn golygu fod balans y gronfa yn £12.5 miliwn ar 31 Mawrth 2021.

Sefydlwyd y Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid-19 wrth gau cyfrifon 2020/21, pryd neilltuwyd £2.5 miliwn i'r gronfa i gynorthwyo'r Cyngor i adfer yn dilyn yr argyfwng.

#### 5. Defnydd o'r Gronfa Trawsffurfio

Mae gwariant cyson wedi bod yn cael ei wneud yn flynyddol o'r Gronfa Trawsffurfio yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor. Rhwng 2016/17 a 2020/21 bu gwariant o dros £7 miliwn o'r gronfa, fel a amlinellir yn nhabl 1 isod. Gwelwyd leihad mewn defnydd o'r gronfa yn ystod 2020/21, o ganlyniad i dderbyniad grantiau niferus gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 1: Gwariant o'r Gronfa Trawsffurfio rhwng 2016/17 – 2020/21**

<b>Blwyddyn Ariannol</b>	<b>£</b>
2020/21	811,015
2019/20	1,593,935
2018/19	1,951,572
2017/18	1,526,115
2016/17	1,302,740



£5.3 miliwn yw gwerth yr ymrwymiadau cyfredol yn erbyn y Gronfa Trawsffurfio, sydd yn cynnwys ymrwymiadau o dros £5 miliwn cyn blwyddyn ariannol 2021/22, ynghyd â'r ymrwymiadau diweddar isod sydd wedi eu cymeradwyo yng nghyfarfodydd y Cabinet fel a restrir yn nhabl 2.

**Tabl 2: Ymrwymiadau diweddar o'r Gronfa Trawsffurfio**

<b>Maes</b>	<b>£</b>	<b>Cyfarfod o'r Cabinet</b>
<b>Newid Hinsawdd</b> Rheolwr Prosiect Newid Hinsawdd	58,990	26 Ionawr 2021
<b>Uned 2a, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth</b> Galw Gwynedd	83,000	27 Gorffennaf 2021
<b>Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus</b> Rheoli Cŵn	98,120	27 Gorffennaf 2021
<b>Cyfanswm</b>	<b>240,110</b>	

Golyga hyn fod yna adnoddau o £7.2 miliwn ar gael i bwrpas blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

#### **6. Defnydd o'r Gronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid-19**

O ran yr ymrwymiadau o'r gronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid-19, mae ymrwymiadau o £430,000 sydd yn cynnwys £130,000 ar gyfer uwchraddio'r dechnoleg i alluogi mynychu cyfarfodydd o bell.

#### **7. Cyfeiriad a Awgrymir**

Er mwyn hwyluso trefniadau gwario ac o ystyried maint y Gronfa Trawsffurfio, awgrymir y dylid ar gyfer symiau hyd at £100,000, fod y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Cyllid yn penderfynu ar y dyraniadau o'r Gronfa Trawsffurfio ac o'r Gronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid-19. Bydd cymeradwyaeth y Cabinet yn parhau'n ofynnol ar gyfer blaenoriaethau sydd uwchlaw'r trothwy £100,000.

## **Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

## **Barn y swyddogion statudol**

### **Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n fodlon â rhesymeg a phriodoldeb yr hyn a gynigir.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

# Eitem 10 CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad:</b>	30 Tachwedd 2021
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Dilwyn Morgan
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

### Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn 2021-22 yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; materion a lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn nodi bod y materion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd Herio Perfformiad Adrannol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.
- 1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth drwy Gynllun y Cyngor yn symud ymlaen, ac ar y trywydd i gyflawni yn erbyn ein addewidion, a'u pwrpas. Mae rhai materion eraill wedi codi i sylw drwy ein herio perfformiad sy'n achosi pryder i ni ac rwy'n amlinellu rhieny isod.

## **2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023**

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael gyda prif risgiau yr adran. Yn gyffredinol teimlaf fod bob prosiect ar hyn o bryd yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.

### **2.2 Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd**

Rwy'n falch o nodi fod y rhaglen Diogelu Plant yn Effeithiol, ymyrraeth Ffordd Gwynedd ar y cyd rhwng Adran Plant ac Addysg; a datblygu Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i gilydd yn symud ymlaen fel y rhaglweyd. Fodd bynnag rwyf yn tynnu eich sylw fod heriau staffio ar draws gwasanaethau'r Adran yn pery pryder i mi, ac yn risg i ni fethu a gwireddu gweledigaeth y Strategaeth hon.

### **2.3 Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth**

Er fod y pandemig wedi oedi'r rhaglen trawsffurfio hon, gallaf nodi fod yr Adran ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd a Chyngor Mon wedi addasu ac ailgydio yn y prosiect. Mae'r Tim Aml-asiatnaethol yn ei le ers mis Medi; mae rhaglen hyfforddiant i uwchsgilio'r gweithlu presennol ar draws addysg, gofal cymdeithasol a iechyd i gefnogi plant gydag anghenion dwys a cymhleth yn parhau.

### **2.4 Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu**

Mae grŵp prosiect wedi ei sefydlu ac maent wedi cwblhau adolygiad o sefyllfa bresennol profiadau teuluoedd gyda plant ag awtistiaeth. Mae'r Grŵp wedi tynnu Cynllun Awtistiaeth drafft ynghyd sy'n dangos be sydd angen i ni ei wneud i ymateb i argymhellion yr adolygiad. Byddaf yn dod a'r cynllun hwnnw i'r Cabinet yn fuan. Rydym hefyd wedi denu adnoddau i benodi Cydlynnydd i'r Cynllun a byddwn yn symud i recriwtio yn yr wythnosau nesaf.

### **2.5 Cefnogi Llesiant Pobl**

Mae'r gwaith o gefnogi lleisant pobl dros y misoedd diwethaf wedi parhau i ganolbwyntio ar ymateb i heriau a sgil-effeithiau'r pandemig. Rydym yn parhau i fod yn rhan o beilot Hybiau Cefnogi Covid, ac yn disgwyl gwerthusiad ohono cyn diwedd y flwyddyn. Ers fy niweddariad blaenorol rydym bellach wedi sefydlu trefniadau Grwpiau Tasg a Gorffen Traws Adrannol ar gyfer y ffrydiau gwaith sydd wedi eu blaenoriaethu gennym fel Cyngor. Mae rhai o'r ffrydiau gwaith hynny yn symud ymlaen yn dda megis atal digartrefedd, gofalwyr di-dal, llesiant plant a pobl ifanc ac mae rhai o'r ffrydiau gwaith eraill angen eu cadarnhau ymhellach, sef Gwydnwch Cymunedol, Model Pen Blaen i Wasanaethau'r Cyngor a Tlodi. Mae'r newidiadau mewn budd-daliadau, cynnydd mewn costau byw fel bwyd a tanwydd dros y misoedd diwethaf yn fater o gryn bryder i mi a cyd-aelodau. Mae gwaith ar y cyd gyda'n partneriaid i gynnyddu ein capasiti i helpu trigolion o gyda cyngor ariannol, delio gyda dyledion, a tlodi bwyd.

## **3. PERFFORMIAD A MESURAU**

- 3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud a'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar berffromiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i ni.
- 3.2 Capasiti y Gweithlu – Ers fy niweddariad blaenorol mae'r sefyllfa gweithlu yn parhau yn fater o bryder difrifol. Mae'r Adran yn gweithredu trefniadau dros dro er mwyn delio gyda diffyg yn y niferoedd anghenrheidiol o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cefnogol drwy ddargyfeirio gweithywr i'r Timau Gwaith Cymdeithasol. Mae'r adran hefyd yn parhau i drio recriwtio gweithwyr cymdeithasol. Mae llwythi achos y gweithlu presennol yn cynnyddu, a nifer o'r achosion hynny yn gymhelth ac felly angen mwy o amser, sylw a chefnogaeth. Mae risg, oherwydd y prinder o weithwyr cymwysiedig, i'n gallu i gyflawni'r prosiectau blaenoriaeth, a'n gwaith dydd i ddydd; ynghyd a risg o effaith anwydol i iechyd a lles y staff eu hunain.
- 3.3 O ran mesurau yr adran, rwyf ar y cyfan yn hapus gyda'u perfformiad. Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at 3 yn benodol sy'n darlunio stori yr adran yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwnnw.
- 3.5 Mae niferoedd sy'n cysylltu am Wybdoeth, Cyngor neu Gefnogaeth yn parhau i gynyddu yn 585 ym mis Medi. Mae hyn bron yn 19% o gynnydd o gymharu a a'r un cyfnod flwyddyn diwethaf.
- 3.6 Ond, er fod y galw sy'n cyrraedd yr adran ar gynnydd, braf yw cael nodi unwaith eto fod ein strategaeth ni i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a peidio a dod a plant i mewn i ofal yn ddiangen yn dwyn ffrwyth. Gyda 872 o blant yn agored i'r adran ar ddiwedd Medi, mae 83% ohonynt yn cael eu cefnogi i fyw gyda'u teulu. Rydym eto yn gweld gostyniga yn nifer y plant sydd mewn gofal, o 281 ym mis Ebrill i 268 mis Medi. Dengys y mesurau yma fod ein penderfyniadau ni yn amserol ac yn gywir; a bod gennym ystod o becynnau cefnogaeth dwys ac arbenigol i gadw plant gyda'u teuluoedd yn ddiogel.

#### **4 SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

- 4.1 Mae'r Cabinet wedi trafod prif gynllun arbedion, Cynllun Dechrau i'r Diwedd, yr adran ym mis Ionawr 2021, pan ddilëwyd £1,149,000 o'r targed (£688,000 o'r targed hyd at 2020/21 a £460,000 pellach ar gyfer 2021/22). Fodd bynnag mae'r adran yn parhau i edrych ar gyflawni'r targed arbedion diwygiedig drwy wella effeithlonrwydd eu trefniadau gwaith. Mae'r adran yn cynllunio ar gyfer gwireddu arbedion 2022-23 ar hyn o bryd.
- 4.2 Ar gyfer 2021/22, fel rhan o'r drefn bidiau mae'r Adran dderbyn gwerth dros £1,824,000 o fidiau parhaol i gwrdd â phwysau anorfod yn bennaf ar leoliadau plant mewn gofal. Mae'r rhagolygon cynnar eleni yn awgrymu fod y cyfuniad o adnodd ychwanegol ynghyd â dileu gwerth £1,149,000 o arbedion, wedi cynorthwyo sefyllfa ariannol yr Adran ac felly yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, rhagwelir y bydd modd cadw o fewn y gyllideb.

#### **5 Barn y Swyddogion Statudol:**

##### **i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

## **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf fod y wybodaeth a gyflwynir ym mharagraff 4 o'r adroddiad, am y sefyllfa ariannol ac arbedion, yn adlewyrchiad teg a chywir o'r hyn ddigwyddodd yn y broses cyllidebu ar gyfer 2021-22 a'r hyn adroddwyd eisoes i'r Cabinet yn dilyn yr adolygiad ariannol o'r sefyllfa ar ddiwedd mis Awst.

### **a. Barn yr Aelod Lleol:**

- i. Ddim yn fater lleol.

### **b. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

- i. Dim i'w nodi.
- 

## **Atodiadau**

# Eitem 11 CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad:</b>	30 Tachwedd 2021
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

---

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

### Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion wedi eu craffu mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolaeth o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Pwyllgor Craffu Gofal .
- 1.3 O ystyried yr heriau sylweddol sy'n parhau i'n wynebu yn y maes gofal yn sgil y pandemig, rwy'n falch o allu adrodd fod cynnydd wedi bod yn ddiweddar ar brosiectau blaenoriaeth yr Adran. Rhaid cydnabod fod 'na wastad fwy y gellid ei gyflawni, ond mae'n braf dechrau profi llafur y gwaith caled sy'n mynd rhagddo ar draws y maes ar y cyd gyda'n partneriaid.

#### 2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

- 2.1 Isod, darperir diweddariad ar y prosiectau. Fesul prosiect nodir mewn tabl yr hyn wnaethom ni ddweud y buasem yn ei gyflawni erbyn diwedd Mawrth 2022. Mae statws gwyrdd yn erbyn y weithred yn cynrychioli ein bod wedi, neu'n debygol o gyflawni'r hyn a nodwyd erbyn diwedd y flwyddyn, neu'n fuan wedi hynny. Amlygir mewn coch yr agweddau na fyddwn yn debygol o fod wedi eu cyflawni yn unol â'n bwriad.

2.2 Rhoddir eglurhad ar unrhyw weithred sydd â statws coch gan egluro'r rheswm pam nad ydym yn debygol o'i gyflawni, ac yna diweddariad ar rai o agweddau eraill y prosiect ble mae cynnydd wedi bod ers i mi adrodd i chi y tro diwethaf.

2.3 **Darpariaeth gofal addas a chynaliadwy i'r dyfodol** - rhaglen i fynd i'r afael â'r ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd.

2.3.1 Tabl 1

Ceisio deall "gwir gost gofal" er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol	
Sicrhau ein bod yn deall yr angen am ddarpariaeth gwelyau nyrsio yn y sir, a symud ymlaen gyda phrosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch y prinder ym Mhen Llŷn	
Gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach	
Ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol	
Ystyried sut allwn ni wella addasrwydd ein hadeiladau darparu gofal wrth geisio cwrdd â mesurau rheoli haint ychwanegol.	
Cwblhau uned dementia pwrpasol yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor oherwydd argyfwng Covid-19	
Cwblhau'r gwaith o adeiladu uned dementia ychwanegol yn ein cartref yn y Bermo	
Cwblhau addasiadau i'n cartref yn Nolgellau er mwyn medru cynnig gofal mwy pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys	
Cydweithio gyda chymdeithas tai Adra ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwillheli	
Ceisio adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir, gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach	
Cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.	

2.3.2 Nid ydym wedi gallu agor yr uned yn Llan Ffestiniog oherwydd problemau recriwtio nifer digonol o staff. Mae'r her o ran recriwtio staff newydd i'r maes yn bryder mawr ac adroddir ar gynnydd hynny yn rhan 2.5 o'r adroddiad hwn. Er bod cryn ymdrechion wedi bod yn barod i recriwtio staff i'r uned newydd, byddwn yn mynd ati unwaith yn rhagor i wneud popeth o fewn ein gallu i gynyddu ein capasiti staffio yn y Cartref fel bod modd agor yr uned yn ddiogel.

2.3.3 Er bod y gwaith o ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwillheli yn mynd rhagddo yn unol â'r disgwyl mae llithriad i'w adrodd o ran ceisio canfod cyfleoedd mewn ardaloedd eraill yn y Sir. Yn benodol o ran Dolgellau, nid ydym ar hyn bryd yn gallu canfod lleoliad addas.

2.3.4 Rydym wedi llwyddo i gryfhau rhyw gymaint ar y gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd ar sail dros dro, ond bid wedi ei wneud am gyllideb refeniw parhaol ychwanegol ar gyfer Ebrill 2022 er mwyn gallu cyflawni hyn yn llawn yn unol â chefnogaeth y Pwyllgor Craffu Gofal.

2.3.5 Cyfeiriais yn fy adroddiad diwethaf i chi ym mis Gorffennaf fod y gwaith wedi dechrau ar geisio deall yn well beth yw'r 'gwir gost gofal' yn benodol yn y maes Preswyl a Nyrsio. Mae gwaith wedi ei wneud gyda sampl o ddarparwyr ar draws gogledd Cymru er mwyn cymharu eu costau gyda model ariannu cydnabyddedig sy'n cael ei ddefnyddio ar draws



Cymru a Lloegr. Mae'r wybodaeth ddechreuol sy'n deillio o'r gwaith yma yn amlygu bwloch ariannol sylweddol wrth gymharu gyda'r ffioedd cyfredol sydd mewn lle gan awdurdodau'r gogledd. Mae trafodaethau yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn a'r goblygiadau ariannol tebygol ar awdurdodau lleol.

2.3.6 Mae'r broblem yma yn cael ei amlygu yn benodol wrth geisio comisiynu gofal Nyrsio ers dechrau'r flwyddyn ariannol hon. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi Nyrsio'r Sir bellach yn gwrthod ein ffioedd safonol ac yn mynnu ffioedd uwch. Er ein bod yn gwneud gwaith pellach a manwl gyda'r darparwyr annibynnol hyn, mae'r sefyllfa rydym ynddo ar hyn o bryd yn golygu fod ein costau yn cynyddu. Mae'r sefyllfa yn niweidiol hefyd i'n trigolion o ran gallu cynnig dewis eang o gartrefi gofal yn eu cymunedau. Mae'r risg ariannol hwn wedi cael ei amlygu gyda'r Adran Gyllid.

2.3.7 Ers i mi adrodd i chi ym mis Gorffennaf mae'r gwaith yn mynd rhagddo gyda'r prosiect i ail ddatblygu safle Penrhos, a chynhaliwyd yr ymgynghoriad cyn cynllunio yn ystod mis Tachwedd. Rydym yn ddiweddar hefyd wedi comisiynu ar y cyd hefo'r Bwrdd Iechyd arweiniad cyfreithiol arbenigol gan gwmni allanol. Bydd hyn yn rhoi eglurder i ni ar yr opsiynau gwahanol sydd gennym o ran modelau darparu posib fyddai yn ein galluogi i gael rôl uniongyrchol yn darparu gofal Nyrsio ar y safle.

2.3.8 Mae'r gwaith o adeiladu Uned Dementia ychwanegol yn ein Cartref Gofal yn Bermo yn mynd rhagddo ac yn debygol o fod wedi gorffen yn fuan. Hyderaf hefyd y bydd yr addasiadau wedi eu cwblhau yn Nolgellau yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn gallu cynnig gofal pwrpasol ar gyfer unigolion sydd ag anghenion corfforol dwys. Rhagwelwn y byddwn yn gweld budd y datblygiadau i'n trigolion yn fuan yn 2022.

2.4 **Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal** – rhaglen i drawsnewid ein gwasanaethau iechyd a gofal ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd er mwyn ymateb i anghenion gofal y Sir i'r dyfodol.

2.4.1 Tabl 2

Arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol	
Dyfarnu cytundebau gofal cartref newydd ymhob ardal gyda'r nod o weithredu'r model newydd yn fuan yn 2022/23	
Cryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys datblygu gwasanaeth symud a thrin arbenigol i alluogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosib	
Ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol sy'n cefnogi a chreu cyfleon i unigolion gydag anableddau dysgu drwy ddatblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau	
Ailagor ein hwb iechyd meddwl cymunedol ym Mhwlheli, yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19 ac edrych ar opsiynau i ddatblygu hybiau pellach ar draws y sir	
Edrych ar opsiynau i ddatblygu darpariaeth cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i garfan iau ardal Arfon.	

2.4.2 Mae llithriad wedi bod yn yr amserlen o ran agor y tendr gofal cartref o ganlyniad i argyfwng Covid. Anelir erbyn hyn i agor y tendr ym mis Ionawr 2022, fydd yn golygu bod gan ddarparwyr gytundebau newydd erbyn yr Haf dilynol. Fel paratoad ar gyfer hyn, mae gwaith manwl yn digwydd i sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda'r holl fudd-ddeiliaid. Yn ogystal, mae camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw adolygiadau o anghenion gofal pobl yn digwydd cyn bod y cyfnod trosglwyddo yn cychwyn. Cychwynnodd y gwaith o

hyfforddi staff i fedru gweinyddu meddyginiaeth ar y 1af o Dachwedd, a bydd yr hyn a ddysgir o brofiadau'r grŵp cyntaf o hyfforddeion yn werthfawr wrth lunio achos busnes cynhwysfawr ar gyfer anelu at sicrhau bod y gweithlu gofal yn ei gyfanrwydd yn meddu ar y sgiliau hyn.

- 2.4.3 Mae'r gwaith o ddatblygu'r model newydd o ddarparu gofal cartref yn parhau. Adroddwyd i chi yng Gorffennaf eleni fod nifer o dimau gofal cartref y Cyngor wedi symud i weithio patrymau shift. Mae hyn yn cynnig gwell hyblygrwydd i'r unigolion sy'n derbyn gofal a gwell sefydlogrwydd i staff. Gallaf eich diweddarau hefyd ein bod wedi profi enghreifftiau positif yn ddiweddar o ddarparwyr yn trafod gyda'i gilydd er mwyn sicrhau nad yw staff yn teithio'n ddiangen. Mae enghreifftiau fel hyn yn braf i'w gweld ac yn arddangos unwaith yn rhagor fod camau yn cael eu cymryd i symud yn nes at y model gweithio newydd.
- 2.4.4 Adroddwyd ym mis Gorffennaf ein bod wedi llwyddo i sicrhau cyllid parhaol i sefydlu Gwasanaeth Symud a Thrin arbenigol fydd yn cryfhau gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol. Rydym bellach wedi penodi 4 swydd yn barhaol ac yn y broses o benodi'r 5ed swydd dros dro. Rydym yn ogystal wedi penodi dau hyfforddai Therapi Galwedigaethol fydd yn golygu ein bod yn datblygu'r gweithlu sydd angen arnom i'r dyfodol.
- 2.4.5 Roeddwn yn falch o adrodd y tro diwethaf fod yr Hwb Iechyd Meddwl Cymunedol ym Mhwlheli wedi ail agor. Rydym wedi bod yn edrych hefyd ar opsiynau i ddatblygu hybiau pellach ar draws y Sir. Mae ardal Caernarfon wedi ei adnabod fel ardal ble mae bwch mewn darpariaeth ataliol i oedolion, a byddwn dros y misoedd nesaf yn rhoi cynlluniau mewn lle ar gyfer ymateb i hynny.
- 2.4.6 Rydym yn ddiweddar wedi sefydlu hybiau lleisiant i bobl hyd at 25 oed yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan Gisda ac yn rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unigolion. Byddwn dros y flwyddyn nesaf yn cadw golwg ar y datblygiadau hyn, a gobeithio'n gweld effaith bositif y ddarpariaeth ar drigolion yn fuan.
- 2.4.7 Adroddwyd i chi ym mis Gorffennaf ein bod bron a chwblhau estyniad ar ein Cartref Preswyl Anableddau Dysgu ym Mhwlheli er mwyn ei gwneud yn haws i deuluoedd ymweld yn ddiogel yn sgil rheoliadau Covid-19. Datblygiad arall sydd ar y gweill fydd yn cyfrannu at ein rhwydwaith o hybiau cymunedol i unigolion gydag Anabledd Dysgu yw datblygu Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau. Mae'r gwaith cynllunio yn mynd rhagddo, drwy drafodaethau efo'r Parc Cenedlaethol. Disgwylir os na fydd cymhlethdodau pellach y byddwn yn gweld y gwaith adeiladu yn dechrau Haf 2022. Tra bydd y gwaith yma'n digwydd byddwn yn gwneud defnydd o Neuadd Gymunedol Llanelltud ac adnoddau eraill dros dro er mwyn sicrhau darpariaeth yn yr ardal.
- 2.5 **Y gweithlu a recriwtio i'r maes gofal** - rhaglen i fynd i'r afael â'r heriau denu a chadw staff yn y maes er mwyn medru ymdopi â'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

#### 2.5.1 Tabl 3

Adolygu trefniadau'r ymgyrch recriwtio diweddar #GalwGofal er mwyn ystyried sut fyddwn ni'n mynd ati i recriwtio i'r dyfodol	
Ystyried ein trefniadau cofrestru ac hyfforddi yn ogystal â threfniadau datblygu staff er mwyn cynyddu hyblygrwydd a chadernid yn y maes	

- 2.5.2 Mae recriwtio a chadw staff yn hynod o heriol ar hyn o bryd, ac mae'r prinder wedi arwain at anallu i ddiwallu'r holl alw sydd am Ofal Cartref mewn nifer o'n cymunedau. Er fod y gweithrediadau y cytunwyd arnynt yng Nghynllun y Cyngor yn symud yn eu blaen yn unol â'r disgwyl, mae'r problemau o ran recriwtio staff newydd a chadw gafael ar staff profiadol ar draws y maes gofal yn parhau. Mae'r trafferthion yn deillio o:
- Trafferthion recriwtio staff newydd i'r maes
  - Staff profiadol yn gadael i swyddi eraill o fewn y maes lechyd a gofal yn ehangach ac i sectorau eraill
  - Absenoldebau salwch yn uchel ar hyn o bryd
  - Effeithiau Hunan Ynysu
  - Y gweithlu'n flinedig gydag argyfwng Covid yn parhau.
  - Gofalwyr di dal wedi llosgi allan
- 2.5.3 Yn anffodus nid yw'r materion hyn am gael eu datrys dros nos gan fod rhai o'r atebion yn golygu buddsoddiad ariannol sylweddol, a newid canfyddiad pobl o'r maes. Er enghraifft, gwella telerau gwaith megis cyflog, a sicrhau fod cyfleoedd gyrfaol amlwg ac atyniadol ar gyfer ein gweithlu i'r dyfodol.
- 2.5.4 Adroddais ym mis Gorffennaf ein bod wedi adolygu llwyddiant ein hymgyrchoedd recriwtio diweddar. Er bod wastad cyfleoedd i wella deunyddiau a ffyrdd gwahanol o farchnata, credir fod yr ymgyrchoedd sydd wedi cael eu cynnal wedi bod yn llwyddiannus yn tynnu sylw unigolion at y cyfleoedd sydd ar gael. Ond er efallai yn denu unigolion i wneud y cyswllt cyntaf a dangos diddordeb, mae'r niferoedd wedyn sy'n llwyddo i gael swydd yn y maes yn y diwedd yn isel o gymharu. Mae amryw reswm dros hyn e.e. unigolion yn ail feddwl ar ôl deall mwy am y gwaith - ond tybir hefyd fod yr amser mae'n cymryd i benodi staff newydd i'r maes gofal yn cael effaith niweidiol o ran y niferoedd rydym yn llwyddo i'w penodi. Rydym ar hyn o bryd felly yn mynd ati i edrych ar ein prosesau penodi er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol ac addas a phosib. Un o'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud hyd yma ydi y byddwn yn anfon ffurflen gais a phhecyn gwybodaeth allan at unigolion yn ganolog (yn hytrach na fod hynny'n cael ei wneud gan y gwasanaeth / cartref gofal unigol), gan ddilyn i fyny wedyn gyda galwad ffôn er mwyn gweld os oes angen cefnogaeth arnynt i lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa ble byddwn yn gallu tracio cynnydd yr unigolion sydd wedi datgan diddordeb gweithio yn y maes.
- 2.5.5 Y brif her sy'n wynebu darparwyr gofal ar draws y wlad ar hyn o bryd yw sicrhau ein bod yn gallu llenwi bylchau staffio ar y rheng flaen. Mewn ymateb i'r pwysau hyn rydym yn cynyddu ein hymdrechion recriwtio ond hefyd yn targedu i ddenu staff tymhorol sy'n gweithio yn y sector lletygarwch ac o bosib yn chwilio am waith yn ystod misoedd y gaeaf. Rydym yn obeithiol y bydd ein hymdrechion i ddenu staff ychwanegol dros dro yn ystod cyfnod y gaeaf yn llwyddiannus ac y bydd rhai ohonynt yn mwynhau profiad ac yn aros yn y maes yn y tymor hirach.
- 2.5.6 Rwy'n ddiolchgar i'r Cabinet ym mis Hydref y llynedd am gymeradwyo £765,00 o arian un-tro ar gyfer rhagor o staff gofal, ond yn anffodus mae trafferthion recriwtio yn golygu bod cyfran sylweddol o'r arian heb ei wario.

- 2.5.7 Rwy'n falch o adrodd fod pwysau sylweddol wedi ei roi gennym ar y Llywodraeth yng Nghaerdydd i'w dal i'r ymrwymiad maniffesto i fod yn sicrhau fod pawb yn y sector gofal yn cael eu talu'r Cyflog Byw. Credaf fod sicrhau hyn yn allweddol a'i fod angen sylw brys, ond ar yr un pryd dylid nodi mai'r pryder sy'n cael ei adrodd yn ôl i ni gan nifer o'n darparwyr gofal yn gyson ydi nad fyddai talu'r Cyflog Byw erbyn hyn yn ddigonol ar gyfer cadw eu staff profiadol a denu staff newydd i'r maes. Rydym yn grediniol fod angen Strwythur Tal Cenedlaethol yn y maes gofal a byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i fod yn sicrhau fod hyn yn un o'r blaenoriaethau cenedlaethol dros y cyfnod nesaf.
- 2.5.8 Mae gwella telerau gwaith staff rheng flaen y maes heb os yn un o'r prif agweddau sydd angen sylw, ond credir hefyd ei fod yn gwbl angenrheidiol sicrhau fod ein pobl ifanc yn ein hysgolion, colegau a thu hwnt yn gweld y maes gofal fel maes sy'n cynnig gyrfaoedd llewyrchus, pwysig a difyr. Rwy'n awyddus i weld sut y gallwn wneud mwy o ran hyn ac amlygu'r llwybrau gwahanol sydd ar gael yn y maes. Byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r Adran Addysg ac Adran Economi, ynghyd a phartneriaid allweddol eraill, er mwyn ceisio symud y gwaith hwn yn ei flaen.

### 3. PERFFORMIAD

- 3.1 Prif fesur y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyrdd** yw 'A wnaethom gyflawni'r hyn sy'n bwysig?' i'r unigolion sy'n derbyn ein gwasanaethau. Rydym yn ddiweddar wedi gweld dirywiad yng nghanran yr unigolion sydd wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r canran wedi gostwng o 78% i 72% o ran yr unigolion hynny sydd wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn llawn, ond cynnydd wedyn wrth gymharu faint sydd wedi llwyddo i wneud yn rhannol (19% i 24%). O'r rhai a adolygwyd yn ystod y cyfnod felly, mae hyn yn gadael 4% (sef 11 unigolyn ar draws y Sir) ble nad ydynt wedi llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Noder nad yw'r mesur hwn wrth reswm yn cynnwys yr unigolion hynny sy'n aros i becyn gofal gychwyn.
- 3.2 Mae nifer o resymau gwahanol ac unigryw yn gallu bod pam fod unigolion ddim wedi llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, ond er mwyn ceisio gwella ac ymateb i fylchau mewn darpariaeth adroddir hefyd ar y themâu sy'n codi: oedi mewn gallu asesu a threfnu gofal addas i gwrdd ag amcanion personol, straen ar ofalwyr di dal, lleihad mewn cyfleoedd cymdeithasol, colli hyder, colli cyswllt gyda theulu a ffrindiau.
- 3.3 Ers i mi adrodd i chi yn y gwanwyn mae'r sefyllfa o ran y nifer sy'n aros i gael gofal yn eu cartref wedi gwaethygu, gyda chanran yr oriau nad oes modd i ni eu diwallu wedi codi o 2.43% i 6.95% erbyn hyn. Mae hyn o bryder mawr a gwelir fod y sefyllfa ar ei waethaf yn ardaloedd Llyn, Eifionydd / Gogledd Meirionnydd. Mae'r sefyllfa'n anodd iawn i unigolion a'u teuluoedd ac mae gennym ar hyn o bryd dros 100 unigolion ar ein rhestr aros. Hoffwn gymryd y cyfle i gydnabod a diolch i'r teuluoedd hynny sy'n cefnogi eu hanwyliaid yn y cyfnod anodd sydd ohoni. Hyderaf fod pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio sefydlogi'r farchnad trwy dargedu ardaloedd penodol wrth geisio recriwtio mwy o staff, i fod yn rhoi sicrwydd i ddarparwyr annibynnol trwy gytundebau bloc hyd nes y bydd y trefniadau gofal cartref newydd yn ei le. Rydym hefyd yn gwneud pob ymdrech i flaenoriaethu lle mae'n bosib yr achosion hynny sydd gennym ar y rhestr aros sydd fwyaf argyfyngus.
- 3.4 Dengys y data hyd yma yn 2021/22 fod y **Gwasanaeth Anableddau Dysgu** wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn 74% o'r achosion a gofnodwyd. Yn y 26% achos arall, mae'r gwasanaeth wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion yn rhannol. Does dim achos lle nad ydi'r Gwasanaeth wedi gallu cyfarch be sy'n bwysig i'r unigolyn o gwbl.

- 3.5 Mae dadansoddiad o'r rhesymeg tu ôl i'r data yn dangos mai'r rheswm pennaf nad oedd modd cyfarch be sy'n bwysig yn llawn ym mhob achos oedd yr effaith oedd cyfyngiadau Covid-19 yn ei gael ar unigolion, a'r cyfleoedd oedd ar gael iddyn nhw o ganlyniad. Ymysg y rhesymau oedd wedi eu rhoi oedd bod unigolion ddim wedi gallu mynychu cyfleoedd gwaith, gwasanaethau dydd, neu fynd ar wyliau oherwydd cyfyngiadau Covid-19 er enghraifft. Yn ystod y cyfnod lle roedd cyfyngiadau mwy llym mewn lle drwy'r Llywodraeth, roedd hyn tu allan i reolaeth y gwasanaeth mewn sawl achos. Yn ddiweddar mae'r gwasanaeth wedi gallu symud ymlaen i gynnig mwy o wasanaethau dydd a cefnogol yn saff, cychwyn rhai grwpiau nôl, a cefnogi unigolion i fynd ar wyliau ayyb yn unol â'u dyheadau.
- 3.6 Adroddais y tro diwethaf nad oes gennym fesuryddion perfformiad mewn lle ar gyfer y **Gwasanaeth Iechyd Meddwl**, a bod hyn yn rhywbeth sydd angen sylw gennym. Nid yw'r Gwasanaeth yn defnyddio system gofnodi gwybodaeth electroneg, sy'n llesteirio ein gallu i ddatblygu mesur perfformiad addas i fesur ein pwrpas, ac i dynnu gwybodaeth allan yn amserol. Mae'r Gwasanaeth hwn yn wasanaeth integredig sy'n cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd ac mae cyflwyno newidiadau i'r ffordd o weithio yn rhywbeth sydd angen digwydd ar y cyd. Er bod angen datrysiaid i hyn yn fuan er mwyn rhoi'r sicrwydd ein bod yn gwybod ein bod yn cyflawni ein pwrpas ac yn adnabod y cyfleoedd i wella, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn edrych ar ddata sy'n cael ei gasglu yn y maes er mwyn gweld os oes modd ei ddefnyddio mewn modd fyddai yn gwella ein dealltwriaeth o berfformiad.
- 3.7 Pwrpas y **Gwasanaeth Diogelu** yw diogelu unigolion sydd ag anghenion cefnogaeth ac sydd mewn perygl neu'n dioddef camdriniaeth. Yn ystod y cyfnod diwethaf gwelir fod nifer yr ymholiadau diogelu wedi gostwng (108 o gymharu â 134 ymholiad). Er bod hynny'n dueddiad positif i'w weld, mae'r amser mae'n cymryd i ni ymateb i'r ymholiadau wedi gwaethygu - gostyngiad o 93% i 91% yn yr achosion ble rydym wedi llwyddo i ymateb o fewn 7 diwrnod. Gyda'r niferoedd ymholiadau wedi gostwng byddwn wedi disgwyl gweld y canran ymateb wedi gwella, ond deallaf mai un o'r prif rwystrau o ran gallu ymateb yn brydlon yw bod swyddogion yn disgwyl am wybodaeth yn ôl gan weithwyr ac mae arafwch ar hyn o bryd gyda'r achosion hynny sydd â chyswllt gydag ysbytai yn benodol. Deallaf hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i newid y ffurflen adrodd a chredir y bydd hynny'n gwella'r broses wrth symud ymlaen. Rwy'n gobeithio gweld y gwelliant hynny'n cael ei adlewyrchu yn y mesur perfformiad yn fuan. Mae dirywiad wedi bod hefyd o ran yr y mesur sydd gennym sydd yn nodi **o'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i rheoli**. Y prif reswm am hynny yw bod rhai unigolion yn gwrthod ymyrraeth neu fod yr adroddiad cau wedi ei llenwi'n anghywir.
- 3.8 Ffactor ymarferol arall sydd heb os wedi arwain at ddirywiad pellach yn y sefyllfa yn ddiweddar ydi'r lefelau salwch uchel yn y maes ar hyn o bryd. Gwelwyd cynnydd yng nghanran salwch staff Gofal Cartref y Cyngor o 7.2% diwedd Mai eleni i 12.5% diwedd Hydref. Mae'r sefyllfa wrth gwrs yn peri gofid i unigolion bregus a'u teuluoedd a gwelir hefyd ei fod yn cael effaith niweidiol ar rannau eraill o'r system. Yn absenoldeb diffyg gwasanaethau craidd megis gofal cartref mae staff y Timau Adnoddau Cymunedol yn aml iawn erbyn hyn yn gorfod defnyddio eu hunain fel adnodd i gefnogi unigolion. Hyn wedyn yn arwain at leihad yn y capasiti i gynnal asesiadau ar gyfer yr unigolion hynny sy'n dod i sylw'r gwasanaeth o'r newydd. Mae cwestiwn amlwg yn codi yma o ran be allwn ni wneud fel Cyngor i wella'r sefyllfa sydd ohoni a chefnogi staff sydd yn dioddef o sgil effeithiau amrywiol Covid.

- 3.9 Yn ddiweddar rydym wedi bod yn profi trafferthion i leoli mewn cartrefi gofal o ganlyniad i broblemau staffio, dwyster y gofal sydd ei angen ar yr unigolyn, statws COVID y cartref neu'r cartref yn ymgymryd â gwaith adnewyddu. Mewn ymateb i hyn ac er mwyn deall hyd a lled y broblem ac adnabod tueddiadau, rydym yn y broses o sefydlu trefn i adrodd ar restrau aros am ofal ar gyfer cartrefi'r Cyngor.
- 3.10 Un agwedd sydd angen i mi eich diweddarau ohono ac sy'n cael effaith sylweddol ar ein perfformiad ni a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd mewn amrywiol ffyrdd, yw'r problemau sydd wedi bod ers uwchraddio fersiwn newydd o system WCCIS (*Wales Community Care Information System*). Mae'r system wedi ei phrynu yn genedlaethol ac mi rydym ni fel y rhan fwyaf o awdurdod eraill ar draws Cymru yn gwbl ddibynnol arni i gynnal gwasanaethau o ddydd i ddydd. Ers i mi adrodd i chi ym mis Gorffennaf am y trafferthion oedd yn bodoli, roedd gobaith gennym y byddai uwchraddio'r system ym mis Hydref wedi arwain at wella perfformiad y system ond yn anffodus nid yw hynny wedi digwydd. Mae'r mater yn cael sylw ar y lefel uchaf ac mi fyddaf yn eich diweddarau ymhellach o unrhyw ddatblygiadau. Rydym ar hyn o bryd wedi ein clymu i'r cytundeb cenedlaethol, ond credaf fod angen i ni ystyried ein hopsiynau yn ofalus ar gyfer y tymor hirach gan ac asesu goblygiadau rhai o'r opsiynau amgen sydd ar gael.

#### **4. SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

- 4.1 Ar sail adolygiad diwedd Awst 2021 rhagwelir y bydd yr Adran yn gorwario £1,370,260 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol eleni. Mae'r ffaith nad ydym yn llwyddo i gyflawni rhai o'n prif gynlluniau arbedion yn cyfrannu'n sylweddol at y gorwariant hwn.
- 4.2 Mae adolygiad pellach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mi fydd canlyniad hwnnw yn rhoi gwell syniad i ni o beth fydd y sefyllfa debygol erbyn diwedd Mawrth 2022. Er bod 'na wastad dueddiad i adolygiad cyntaf y flwyddyn adlewyrchu sefyllfa heriol yn ariannol, gan fod 'na ansicrwydd bryd hynny am dderbyniadau grantiau sylweddol amrywiol, mae gennyf bryder ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd a'r her sy'n ein hwynebu dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.
- 4.3 Adroddais ym mis Gorffennaf fod y Cabinet wedi ail broffilio rhai o brif gynlluniau arbedion ar gyfer eu cyflawni yn 2022/23. Mae hyn wedi ysgafnhau ar y pwysau a'r disgwyliadau sydd ar yr Adran eleni o ran cyflawni arbedion, gan alluogi'r Adran i gael mwy o amser i sicrhau bod Model Gweithredu newydd yn cael ei wreiddio o fewn y timau.
- 4.4 Er hyn mae gwerth y targedau arbedion sy'n wynebu'r Adran yn 2022/23 yn mynd i fod yn heriol o ystyried y gwaith sylweddol sy'n parhau i drawsnewid gwasanaethau a newid y ffordd o weithio. I sicrhau fod gennym yr adnodd hwyluso trawsnewid sydd ei angen i gyflawni hyn dros y 3 i 4 mlynedd nesaf, mae ymdrechion yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddefnyddio ffynonellau ariannu amrywiol. Mae cyrraedd pen y daith o ran hyn yn gwbl angenrheidiol er mwyn gwarantu fod y newidiadau sy'n digwydd yn strwythurol a diwylliannol yn rhai cynaliadwy i'r dyfodol.
- 4.5 Fel y gwyddoch mae'r cynlluniau arbedion sydd fwyaf heriol i'r Adran yn ymwneud â rheoli'r galw ar ein gwasanaethau, gyda'r gallu i gyflawni yn ddibynnol ar lwyddiant y gwaith o drawsnewid ein gwasanaethau gofal ac iechyd ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Mae cyflawni hyn wrth reswm yn mynd i fod yn fwy heriol byth os byddwn yn gweld fod y galw'n

cynyddu'n fwy na'r disgwyl. Adroddir ar gynnydd y rhaglen hon trwy'r Flaenoriaeth Gwella 'Ail-ddylunio ein Gwasanaethu Gofal.

4.6 Rydym yn ddiweddar wedi derbyn grantiau unwaith ac am byth sylweddol gan y Llywodraeth sydd angen eu defnyddio erbyn diwedd Mawrth 2022. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'n partneriaid am eu syniadau a'r cydweithio i baratoi rhestr o gynlluniau i wella ac adfer gwasanaethau gofal yn dilyn y pandemig. Er yn amlwg yn gwerthfawrogi'r ffaith fod arian ychwanegol yn cael ei roi i'r maes hwn sy'n helpu i ddelio a'r pwysau sy'n bodoli ar hyn o bryd, hoffwn bwysleisio pa mor allweddol ydyw i gael adnoddau ychwanegol ar sail barhaol er mwyn gallu ariannu rhai o'r newidiadau sydd wirioneddol angen eu gwneud yn y maes.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Dim i'w nodi.

### 6.1 Barn y Swyddogion Statudol:

#### i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

#### ii. Y Pennaeth Cyllid:

Nodaf fod rhan 4 o'r adroddiad yn ymhelaethu ar risgiau ariannol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesian, a'r risgiau ynghlwm â'u cynlluniau arbedion. Mae'r adroddiad yn cydnabod fod y targedau arbedion sy'n wynebu'r Adran yn heriol, eleni ac erbyn 2022/23.

Gyda'r Prif Weithredwr, rwyf wedi cyfarfod gyda'r Pennaeth i adolygu ymarferoldeb cyflawni'r cynlluniau arbedion yn 2022/23, ac ymhellach i waith manwl dilynol byddwn yn adrodd ar hyn i'r Cabinet yn y cylch cyllidebu sydd ar droed.

### 6.2 Barn yr Aelod Lleol:

6.2.1 Ddim yn fater lleol.

### 6.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

6.3.1 Dim i'w nodi.